



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Arweiniad ar weithdrefnau ar gyfer
ystyried gwrthwynebiadau

**GORCHMYNION MAPIAU
DIFFINIOL a LLWYBRAU
CYHOEDDUS**

yng Nghymru

Hydref 2014

Cynnwys:

		Tudalen
	Rhagarweiniad	iv
	Geirfa	v
1	Pan fyddwn yn derbyn Gorchymyn	1
2	Y Weithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig	5
3	Y Weithdrefn Gwrandawriad	9
4	Y Weithdrefn Ymchwiliad	15
5	Materion eraill sy'n berthnasol i wrandawiadau ac ymchwiliadau	22
6	Yr hyn y mae'r Arolygydd yn ei ystyried wrth wneud penderfyniad	26
7	Y Penderfyniad (gan gynnwys y broses addasiadau)	37
8	Costau	41
9	Cwynion a Heriau	44
	<i>Atodiadau</i>	
A	Rheolau Hawliau Tramwy (Gweithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau) (Lloegr) 2007	
B	Rheolau'r Weithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig	
C	Cyhoeddiadau Perthnasol	
Ch	Amserlen a chamau gweithredu i'w cymryd ar gyfer y gweithdrefnau Sylwadau Ysgrifenedig, Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau	
D	Paratoi Datganiadau Achos a Phrofion Tystiolaeth	
Dd	Cylchlythyr ar reolau gweithdrefn ar gyfer Gorchmynion Hawliau Tramwy a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2007	
E	Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	

Am yr Arolygiaeth Gynllunio

Asiantaeth weithredol yw'r Arolygiaeth Gynllunio. Rydym yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae rhagor o wybodaeth amdanom yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar:

www.planningportal.gov.uk/planninginspectorate

Mae gan ein harolygwyr ystod eang o gymwysterau a phrofiad, gan gynnwys profiad am hawliau tramwy. Rydym yn cynnal cyrsiau hyfforddiant rheolaidd gyda nhw ac yn darparu nodiadau cyngor a chanllawiau – sydd ar gael ar-lein – i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyson ac yn unol â'r statud diweddaraf a chyfraith achosion ar hawliau tramwy.

Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer Gorchmynion Hawliau Tramwy a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd wedi'i hanfon at Weinidogion Cymru am benderfyniad gan fod pobl wedi rhoi sylwadau arni neu wedi ei gwrthwynebu; neu gan fod angen addasu gorchymyn. Yn Lloegr, daeth Rheolau Hawliau Tramwy (Gweithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau) (Lloegr) (Atodiad A) 2007 i rym ar 1 Hydref 2007; ynghyd â'r weithdrefn newydd ar gyfer gorchmynion sy'n cael eu hystyried drwy Sylwadau Ysgrifenedig (Atodiad B). O 24 Hydref 2011, caiff ysbryd y Rheolau hyn ei fabwysiadu yng Nghymru i gyflwyno ymagwedd fwy strwythuredig gan wneud y broses yn haws i bob un.

Un o brif nodweddion y Rheolau yw'r gofyniad i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno **cyn** i wrandawriad neu ymchwiliad ddechrau. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r holl bartion sy'n gysylltiedig, gan gynnwys yr Arolygydd, weld ac ystyried yr holl dystiolaeth, cefnogi a gwrthwynebu Gorchymyn fel ei gilydd, ymlaen llaw. Hynny yw, nid gwrandawriad neu ymchwiliad yn y lle cyntaf yw'r broses casglu dystiolaeth, ond fforwm ydyw ar gyfer asesu a phrofi'r dystiolaeth berthnasol.

Caiff gorchmynion eu prosesu gan Adran Hawliau Tramwy'r Arolygiaeth Gynllunio. Caiff pob gorchymyn ei aseinio i Swyddog Achos, sy'n enw cyswllt i bawb sy'n gysylltiedig ag ef neu hi. Caiff pob penderfyniad ei wneud gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

Gallwch gysylltu â ni yn:

Y Tîm Hawliau Tramwy
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Os ydych am gael cyngor ar orchmynion yn Lloegr, dylech gysylltu â'n swyddfa ym Mryste:

The Planning Inspectorate
Room 4/05 Kite Wing
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol
BS1 6PN

Ffôn: 0117 372 8000

Gobeithiwn y bydd y llyfryn esboniadol hwn yn helpu pobl sy'n gwneud cais am orchmynion, awdurdodau lleol sy'n eu gwneud, a'r rhai sy'n eu cefnogi neu'n rhoi sylwadau neu wrthwynebiadau iddynt. Nid oes i'r llyfryn hwn statws cyfreithiol.

Geirfa

Ymgeisydd – unigolyn sydd wedi gwneud cais i Awdurdod sy'n Gwneud Gorchymyn am greu gorchymyn.

Amlinellir hyn yn llawn yn Rheol 4(4)(b) Rheolau Hawliau Tramwy (Gweithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau (Lloegr) 2007, (Atodiad A).

Map a Datganiad Diffiniol – y cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus mewn ardal. Mae hawl tramwy a ddangosir ar y map yn dystiolaeth derfynol bod gan y cyhoedd yr hawliau a ddangosir oni wnaed newid cyfreithiol. Mae tystiolaeth Map Diffiniol heb ragfarn o ran unrhyw hawliau eraill a allai fodoli.

Dogfen – yn cynnwys ffotograff, cynllun neu fap.

Wedi'i wneud yn briodol – caiff sylw neu wrthwynebiad 'ei wneud yn briodol' os caiff ei dderbyn gan yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn o fewn y terfyn amser a amlinellir yn yr hysbysiad sy'n hysbysebu'r gorchymyn. Caiff y terfyn amser ei roi yn y Ddeddf y gwneir y gorchymyn oddi tani. Mae'n rhaid i sylwadau neu wrthwynebiadau a wneir yn briodol i Orchmynion Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad gynnwys seiliau'r sylw neu'r gwrthwynebiad hefyd. (Lle bo Arolygydd yn hysbysebu cynnig i addasu gorchymyn, mae'n rhaid i sylwadau neu wrthwynebiadau ddod i law o fewn y terfyn amser a amlinellir yn yr hysbysiad ac mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r addasiad arfaethedig.)

Gwrandawriad – trafodaeth dan arweiniad Arolygydd. Mae gwrandawiadau'n llai ffurfiol ac yn gyflymach o lawer nag ymchwiliadau fel arfer. Nid oes unrhyw groesholi ffurfiol ac nid ydynt yn para fwy na diwrnod fel arfer.

Penderfyniad mewnol – penderfyniad a wneir ar sail y papurau a gyflenwir gan yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn.

Ymchwiliad – lleoliad ffurfiol lle y caiff tystiolaeth ei chlywed a bod tystion yn agored i gael eu croesholi.

Arolygydd – unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru i weithredu ar eu rhan.

Unigolyn â Buddiant– parti â buddiant mewn gorchymyn, nad yw'n ymgeisydd, yn wrthwynebwr neu'n unigolyn perthnasol.

Awdurdod sy'n Gwneud Gorchymyn (neu Awdurdod Lleol) – yr awdurdod lleol sydd wedi gwneud y gorchymyn i greu, dileu neu addasu hawl tramwy (neu lle maent wedi gwrthod gwneud gorchymyn ac wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru).

Unigolion penodedig – sefydliadau sydd â hawl i gael eu hysbysu am orchymyn, fel y nodir yn Atodlen 14 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen 15 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1981 ac Atodlen 6 Deddf Prifffyrdd 1980.

Prawf tystiolaeth – dogfen yn cynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig y bydd unigolyn mewn ymchwiliad cyhoeddus yn siarad amdani. Ni ddylai adrodd yr holl dystiolaeth

sydd ar gael ond dylai ganolbwyntio ar y materion y ceir dadlau yn eu cylch. Ni ddylai gynnwys dogfennau ategol. Amlinellir hyn yn llawn yn Rheol 20, Rheoliadau Hawliau Tramwy (Gweithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau) (Lloegr) 2007, (Atodiad A).

Unigolyn perthnasol – unigolyn sydd wedi rhoi sylw neu wrthwynebiad i orchymyn ond heb ei dynnu'n ôl.

Y Rheolau – Rheolau Hawliau Tramwy (Gweithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau) (Lloegr) 2007.

Dyddiad dechrau – dyddiad y llythyr cychwynnol yn amlinellu amserlen y gorchymyn.

Datganiad achos – datganiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion llawn yr achos y mae unigolyn yn bwriadu ei gyflwyno, gan gynnwys rhestr o unrhyw ddogfennau y bydd yn cyfeirio atynt, ac, os yw'n bosibl, copïau o'r adrannau perthnasol o'r dogfennau hynny.

Datganiad Seiliau – Datganiad cychwynnol yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn sy'n esbonio pam mae'n tybio y dylid cadarnhau Gorchymyn.

Gwrthwynebwr Statudol – parti a wrthwynebodd orchymyn a wnaed gan yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn yn ystod y cyfnod statudol.

Sylwadau ysgrifenedig – dewis arall i'r weithdrefn gwrandawiadau ac ymchwiliadau lle y caiff datganiadau a thystiolaeth eu cyfnewid yn ysgrifenedig yn unig.

1 Pan fyddwn yn derbyn Gorchymyn

- 1.1 Ein nod yw prosesu pob gorchymyn yn brydlon. Fodd bynnag, ni allwn brosesu gorchmynion nad ydynt ar y ffurf gywir neu nad ydynt wedi'u hychwanegu at yr holl ddogfennau ategol (paragraff 1.4).

Y ffurf gywir

- 1.2 Pan dderbyniwn orchymyn, rydym yn gwirio ei fod wedi'i wneud o dan y Ddeddf a'r adran gywir a'i fod ar yr un ffurf, neu ar yr un ffurf gymaint â phosibl, â'r hyn a amlinellir yn y rheoliadau priodol:

- mae'r ffurf ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adrannau 26, 118 a 119 Deddf Priffyrdd 1980 yn Rheoliadau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus 1993 (Offeryn Statudol 1993, Rhif 11 a ddiwygiwyd gan Offeryn Statudol 1995/451);
- mae'r ffurf ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adrannau 118A a 119A Deddf Priffyrdd 1980 yn Rheoliadau Gorchmynion Diddymu a Gwyo Croesfannau Rheilffordd 1993 (Offeryn Statudol 1993, Rhif 9 a ddiwygiwyd gan Offeryn Statudol 1995/451);
- mae'r ffurf ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adrannau 118B neu 119B Deddf Priffyrdd 1980 yn Rheoliadau (Ysgolion) (Gorchmynion Diddymu Arbennig a Gwyo Arbennig) (Cymru) 2005 (Offeryn Statudol, Rhif 1809);
- bydd y ffurf ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adran 119D Deddf Priffyrdd 1980 (gwyo ffyrdd penodol er mwyn gwarchod safleoedd o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig) i'w gweld mewn rheoliadau o dan Atodlen 3 Rheoliadau Priffyrdd (Gorchmynion Gwyo SoDdGA) (Lloegr) 2007 (Offeryn Statudol 2007 Rhif 1494);
- mae'r ffurf ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 i'w gweld yn Rheoliadau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) (Offeryn Statudol 1993, Rhif 12 a ddiwygiwyd gan Offeryn Statudol 1995/451);
- mae'r ffurf ar gyfer gorchmynion o dan adrannau 257 a 258 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'w gweld yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) 1993 (Offeryn Statudol, Rhif 10 a ddiwygiwyd gan Offeryn Statudol 1995/451).

- 1.3 Pan fyddwn yn gwirio ffurf ar orchymyn, nid oes gennym unrhyw bŵer i wneud penderfyniad terfynol o ran p'un a yw'n bodloni'r rheoliadau. Dim ond y llysoedd sy'n gallu gwneud penderfyniad o'r fath. Fodd bynnag, os tybiwn fod rhywbeth o'i le ar y gorchymyn, er enghraifft, os nad yw ar y ffurf gywir i raddau mawr, byddwn yn ei wrthod. Yna byddwn yn ei ddychwelyd i'r awdurdod lleol a'i hanfonodd atom gyda llythyr yn esbonio'r rheswm dros ei wrthod ac yn gofyn i'r awdurdod lleol roi gwybod i bawb.

Y dogfennau ategol

- 1.4 Yna byddwn yn gwirio bod yr awdurdod lleol wedi anfon yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen arnom i gefnogi'r gorchymyn fel y'u rhestrir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 5/93. Rydym wedi rhoi rhestr wirio i bob awdurdod lleol o'r dogfennau sydd eu hangen arnom. Mae'r rhestr wirio'n amlinellu'r gorchymyn rydym yn ei ffafrio ar gyfer dogfennau ffeil – dylai cynghorau ei defnyddio fel canllaw wrth lunio eu bwndel ar gyfer cyflwyno gorchymynion. Mae'r rhestr wirio ar ein gwefan yn www.planningportal.gov.uk
- 1.5 Un o'r dogfennau sydd eu hangen yw 'datganiad seiliau'. Ynndo, mae'r awdurdod lleol yn esbonio pam mae o'r farn y dylid cadarnhau'r gorchymyn. Ni ddylai'r awdurdod lleol ailadrodd meini prawf adran y Ddeddf y gwnaed y gorchymyn oddi tani yn unig. Mae'n rhaid iddo esbonio sut mae'r gorchymyn yn bodloni pob un o'r meini prawf perthnasol y bydd angen i'r Arolygydd eu hystyried, hyd yn oed os nad yw'r gwrthwynebwyr/gwrthwynebwyr wedi dadlau yn eu cylch. Mae angen sylwadau'r awdurdod lleol arnom hefyd mewn perthynas â'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a wnaed i'r gorchymyn.
- 1.6 Dylai'r awdurdod lleol gadarnhau hefyd ei fod wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill neu ymgymerwyr statudol, neu unrhyw sefydliadau eraill, lle mae'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Ddeddf y cafodd y gorchymyn ei wneud oddi tano. Yna, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol anfon tystysgrif atom i ddangos eu bod wedi ymgynghori â'r sefydliadau hyn a'u bod wedi cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen arnynt. Mae'n rhaid iddynt anfon datganiad atom hefyd yn esbonio sut y gwnaethant ymgynghori â'r sefydliadau a beth oedd canlyniadau'r rhain.

Dewisiadau ar gyfer ymdrin â sylwadau neu wrthwynebiadau

- 1.7 Pan dderbyniwn orchymyn dilys, caiff cyfrifoldeb am y gorchymyn hwnnw ei drosglwyddo o'r awdurdod lleol i Weinidogion Cymru. Golyga hyn, hyd yn oed os nad yw'r awdurdod lleol yn cefnogi'r Gorchymyn mwyach, y byddai Gweinidogion Cymru neu ein harolygydd yn gallu ystyried sylwadau unrhyw gefnogwr arall wrth benderfynu p'un ai i'w gadarnhau ei pheidio. Os caiff yr holl sylwadau a gwrthwynebiadau i Orchymyn Deddf Priffyrdd 1980 neu Orchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eu tynnu'n ôl, gofynnwn i'r awdurdod lleol a yw am gadarnhau'r gorchymyn ei hun. Fodd bynnag, ni allwn drosglwyddo gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn ôl i'r awdurdod lleol hyd yn oed os caiff yr holl sylwadau neu wrthwynebiadau eu tynnu'n ôl (paragraff 1.14).
- 1.8 Rydym yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol a'r unigolion perthnasol p'un a yw gwrandawriad neu ymchwiliad i'w weld yn angenrheidiol, neu p'un ai cyfnewid tystiolaeth a sylwadau yn ysgrifenedig fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o benderfynu ar yr achos. Defnyddiwn y weithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig (Adran 2) a Gwrandawriadau (Adran 3) yn hytrach nag Ymchwiliadau ym mhob achos addas (Adran 4).
- 1.9 Mae gan bawb sydd wedi rhoi sylw neu wrthwynebiad yn briodol ("unigolion perthnasol") hawl i gael eu clywed gan arolygydd. Os bydd rhywun yn gofyn am gael ei glywed, byddwn yn penderfynu p'un ai gwrandawriad neu

ymchwiliad fyddai'r weithdrefn fwyaf addas. Os yw awdurdod lleol arall wedi rhoi sylw neu wrthwynebiad yn briodol i Orchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref neu Orchymyn Deddf Priffyrdd, mae'n rhaid i ni drefnu cynnal ymchwiliad.

Sylwadau Ysgrifenedig

- 1.10 Cyfnewid tystiolaeth a sylwadau yw'r weithdrefn hon gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod yn gyhoeddus; mae'r Arolygydd yn ystyried yr holl dystiolaeth a'r ohebiaeth a gyflwynir, fel arfer drwy ymweld â'r safle – heb fod yng nghwmni eraill ar y cyfan.
- 1.11 O ddilysu'r gorchymyn, ein nod yw gwneud penderfyniad ar achosion sy'n mynd rhagddynt ar ffurf sylwadau ysgrifenedig o fewn 37 wythnos.

Gwrandawiaid ac Ymchwiliadau

- 1.12 Gweithdrefn lle caiff tystiolaeth ei chyflwyno gan unigolion sy'n cefnogi ac yn gwrthwynebu gorchymyn mewn cyfarfod a gynhelir gan Arolygydd yw gwrandawriad neu ymchwiliad. Rôl yr Arolygydd yw clywed yr holl dystiolaeth o blaid ac yn erbyn cadarnhau gorchymyn mewn ffordd agored, deg a diduedd. Felly, mae'r Arolygydd yn gweithredu mewn ffordd niwtral. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ganolbwyntio ar y gofynion cyfreithiol a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a dylid amlygu casgliadau clir o'r dystiolaeth a gyflwynir. Mae'r ddeddfwriaeth yn eithaf cyfyngedig mewn rhywfaint o waith achos hawliau tramwy o ran y pethau y gellir eu derbyn fel materion perthnasol i'w trafod (Adran 6) a bydd yr Arolygydd yn ymyrryd o ran rhoi terfyn ar dystiolaeth amherthnasol. Nid fforwm i drafod llwybrau amgen mo gwrandawriad neu ymchwiliad, ond gallai fod yn briodol esbonio pam y dylid addasu llwybr gorchymyn cyhoeddedig cyn y caiff y gorchymyn ei gadarnhau.
- 1.13 O ddilysu'r gorchymyn, ein nod yw rhoi penderfyniad ar achosion sy'n mynd rhagddynt ar ffurf gwrandawriad o fewn 29 wythnos ac ar ffurf ymchwiliad o fewn 45 wythnos.

Gorchmynion Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

- 1.14 Mae adran 6 y llyfryn hwn (paragraffau 6.32 i 6.33) yn amlinellu'r meini prawf y mae'n ofynnol i Arolygwyr eu hystyried o ran gwneud eu penderfyniadau ar orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Gan fod y meini prawf yn eithaf cyfyngedig, rydym yn gwirio'r holl sylwadau a gwrthwynebiadau a roddwyd ar y gorchmynion hyn i sicrhau eu bod yn berthnasol i brosesau ystyried yr Arolygydd.
- 1.15 Os tybiwn nad yw sylw neu wrthwynebiad yn cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n berthnasol, rydym yn ysgrifennu at yr unigolyn i roi'r cyfle iddo ddweud pam mae'n berthnasol yn ei dyb ef, i ddiwygio'r sylw neu'r gwrthwynebiad fel ei fod yn berthnasol, neu i'w dynnu'n ôl. Fodd bynnag, os nad yw'r un o'r

sylwadau neu'r gwrthwynebiadau'n berthnasol, gall Arolygydd benderfynu ar y gorchymyn heb glywed y dystiolaeth neu gyfnewid sylwadau ysgrifenedig¹. Yn yr achosion hyn, rydym yn rhoi gwybod i bawb bod yr Arolygydd yn bwriadu penderfynu ar y gorchymyn ar sail y wybodaeth sydd eisoes ar ffeil. Mae hyn yn hysbys fel '**penderfyniad mewnol**' – nid oes unrhyw wrandawriad, ymchwiliad neu gyfnewid sylwadau ysgrifenedig. Ymhlith amgylchiadau eraill lle y gallai penderfyniad mewnol fod yn briodol, mae'r canlynol:

- Lle bo gorchymyn diwrthwynebiad wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau gyda chais i'w addasu (Nid oes gan Awdurdodau sy'n Gwneud Gorchymynion y pŵer i gadarnhau gorchymynion gydag addasiadau);
- Lle bod pob gwrthwynebiad i orchymyn wedi'i dynnu'n ôl;
- Lle bo Awdurdod sy'n Gwneud Gorchymyn yn penderfynu nad ydynt am ddwyn gorchymyn yn ei flaen mwyach (nid yw'n berthnasol i orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981; lle bo dystiolaeth yn bodoli, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o hyd i ddirnad p'un a yw'r hawl tramwy'n bodoli ai pheidio).

Bydd yr Arolygydd penodedig yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun wrth wneud penderfyniad mewnol.

Y Porth Cynllunio

- 1.16 Pan fydd Gorchymyn wedi'i gychwyn, caiff manylion yr achos eu cyhoeddi ar wefan y Porth Cynllunio.
- 1.17 Hefyd bydd gan achosion Hawliau Tramwy yng Nghymru a gychwynnwyd o dan ysbryd Rheolau 2007 gyfleuster gweld dogfennaeth achos hanfodol. Bydd y dogfennau ar gael i'w gweld ar-lein gan bob parti, ynghyd â chrynodeb o gamau a dyddiadau'r achos. Bydd y wybodaeth hon yn caniatáu i bob parti ddilyn trywydd yr achos ac yn arwain at broses fwy effeithlon. Bydd y wybodaeth yn gynwysedig mewn dogfen pdf unigol a gaiff ei diweddarau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i bob cam fynd heibio.
- 1.18 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â diogelu data yn Atodiad G.

¹ Mae paragraff 7(2A) a pharagraff 8(3) Atodlen 15 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 yn caniatáu i ni wneud hyn.

2 Y Weithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig

- 2.1 Penderfynir ar rai gorchmynion ar ôl cyfnewid tystiolaeth ysgrifenedig; nid oes unrhyw wrandawriad neu ymchwiliad, ond bydd ein harolygydd yn ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad. Mae'n rhaid i bawb sy'n gysylltiedig gytuno i ddefnyddio'r weithdrefn hon. Mae'n fwyaf addas ar gyfer gorchmynion lle bo ychydig o dystiolaeth yn unig, lle bo'r materion yn gymharol syml a lle bo dim ond ychydig o unigolion perthnasol. Lle bo gennym orchymyn sy'n bodloni'r meini prawf hyn, rydym yn ysgrifennu i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at yr unigolion perthnasol yn gofyn am eu cytundeb o ran defnyddio'r weithdrefn hon. Gofynnwn hefyd iddynt fabwysiadu'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyfnewid tystiolaeth a sylwadau (Atodiad B).
- 2.2 Yna, byddwn yn rhoi **llythyr dyddiad dechrau** i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi ysgrifennu'n datgan buddiant yn y gorchymyn y caiff y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ei defnyddio. Mae'r llythyr dyddiad dechrau'n amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Paratoi'r dystiolaeth

- 2.3 Mae'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill sydd am gyflwyno tystiolaeth oll yn paratoi "datganiad achos" (Atodiad D). Datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n cynnwys manylion llawn am yr achos y mae pob un ohonynt am i'r Arolygydd ei ystyried. Dylai gynnwys copïau o'r holl ddogfennau maent am ddibynnu arnynt. Nid oes angen i'r awdurdod lleol baratoi datganiad achos os nad oes ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu at y datganiad o resymau a anfonodd gyda'r Gorchymyn.

Heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 2.4 Yn ôl y weithdrefn ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, mae'r awdurdod lleol yn anfon ei ddatganiad achos, copi o'r dogfennau y mae'n eu cyflwyno fel tystiolaeth a rhestr o'r holl ddogfennau hyn atom o fewn **pythefnos i'r dyddiad dechrau**. Nid ydym yn derbyn datganiadau hwyr fel arfer. Rydym yn anfon copi o ddatganiad achos yr awdurdod lleol at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi ysgrifennu'n datgan buddiant yn y gorchymyn. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol.
- 2.5 Mae gan yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a'r unigolion eraill ychydig yn hwyrach i gyflwyno eu datganiadau achos. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio datganiad a dogfennau ategol yr awdurdod lleol. Os caiff dogfen ei chynnwys yn natganiad achos yr awdurdod lleol, nid oes rhaid i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolion eraill roi copi – gall gyfeirio at y copi o'r ddogfen a anfonwyd gan yr awdurdod lleol.

Heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 2.6 Yn ôl y weithdrefn ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, dylai'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd am roi tystiolaeth

sicrhau bod eu datganiad yn ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag 8 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Rydym yn copïo'r datganiadau hyn gan gynnwys y dogfennau hyn i'r awdurdod lleol. Rydym hefyd yn copïo datganiad yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac eithrio'r dogfennau i'r unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos. Yna, rydym yn copïo'r datganiadau perthnasol a datganiadau unigolion eraill i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pob unigolyn perthnasol a'r unigolion eraill sydd wedi cyflwyno datganiad achos. Nid ydym yn derbyn datganiadau hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol.

Heb fod yn hwyrach na 14 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 2.7 Mae'n rhaid i sylwadau'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol a sylwadau unigolion eraill ar unrhyw ddatganiad achos neu bob datganiad achos ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach na 14 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Rydym yn copïo'r rhain i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos. Nid ydym yn derbyn sylwadau hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfa'r awdurdod lleol.
- 2.8 Fel arfer, ni chaiff unrhyw sylwadau pellach eu cyfnewid. Os bydd angen i ni wneud hynny, gofynnwn i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un sydd wedi rhoi sylwadau am ragor o wybodaeth am eu datganiadau neu eu sylwadau. Fodd bynnag, dengys ein profiad ni nad yw cyfnewid pellach fel arfer yn ategu'r achos o blaid neu yn erbyn gorchymyn.

Beth fydd yn digwydd os tybiwch nad yw Sylwadau Ysgrifenedig yn briodol mwyach?

- 2.9 Gallwn newid y weithdrefn i benderfynu ar orchymyn ar unrhyw bryd cyn y caiff y penderfyniad ei roi. Gwrandawriad neu ymchwiliad yw'r dewisiadau eraill. Os bydd yr awdurdod lleol neu'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) yn tybio nad yw'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol mwyach, dylent roi gwybod i ni, gyda rhesymau pam y dylem newid y weithdrefn. Yna byddwn yn ystyried y cais ar ôl ymgynghori â phartïon y gorchymyn, yn ôl yr angen. Mae gan unrhyw un sydd wedi rhoi gwrthwynebiad neu sylw yn briodol i orchymyn hawl statudol i gael ei glywed; lle bo parti'n penderfynu'n ddiweddarach i ymarfer ei hawl i gael ei glywed, byddwn yn penderfynu ar y weithdrefn – gwrandawriad neu ymchwiliad, gan ystyried amgylchiadau'r gorchymyn.

Beth fydd yn digwydd os na fydd pobl yn cadw at y weithdrefn ar gyfer Sylwadau Ysgrifenedig?

- 2.10 Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad os daw i'r amlwg na chedwir yn gywir at y weithdrefn ar gyfer sylwadau ysgrifenedig.

Ymweliadau Safle

- 2.11 Pwrpas ymweliad safle yw i'r Arolygydd weld y tir y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef a'r tir cyfagos ac i gofnodi nodweddion ffisegol megis camfeydd, gataiau, ffensys, waliau, gwrychoedd a choed. Mae'r Arolygydd yn ymweld â'r safle fel arfer pan fo'r broses o gyfnewid sylwadau wedi'i chwblhau ac mae'n cynnal yr ymweliad hwn oni bai bod yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolyn perthnasol yn gofyn am ddod gyda'r Arolygydd. Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu bod angen ymweliad yng nghwmni eraill, neu os daw cais am ymweliad heb fod yng nghwmni eraill i law gan unrhyw rai o'r uchod, byddwn yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol **heb fod yn llai na phythefnos** o'r dyddiad a'r amser y caiff ei gynnal.
- 2.12 Mae'n bosibl y bydd y rhai sydd yng nghwmni'r Arolygydd ond yn amlygu nodweddion ffisegol y maent wedi sôn amdanynt yn eu tystiolaeth. Ni fydd yr Arolygydd yn trafod yr achos o blaid neu yn erbyn gorchymyn. Ni fydd yr Arolygydd yn gohirio'r ymweliad â'r safle os bydd rhywun sydd wedi gofyn am fod yno yn absennol ychwaith. Os bydd gwrthwynebwyr gorchymyn yn gofyn am ddod gyda'r Arolygydd, yna mae angen i'r awdurdod lleol anfon cynrychiolydd. Fodd bynnag, os caiff y cais ei wneud gan yr awdurdod lleol, bydd yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu gefnogwr yn ysgrifennu at y gwrthwynebwyr/gwrthwynebwyr yn gofyn am eu cadarnhad eu bod yn barod i ddod i'r ymweliad â'r safle. Os nad yw cynrychiolwyr o'r ddwy ochr yn bresennol, bydd yn rhaid i'r Arolygydd gynnal ymweliad heb fod yng nghwmni eraill.

Tystiolaeth hwyr ar achosion yr ymdrinnir â nhw ar ffurf Sylwadau Ysgrifenedig

- 2.13 Mae anfon deunydd yn hwyr yn annheg ar eraill sydd â buddiant yn y gorchymyn. Oni bai bod amgylchiadau anghyffredin² dros gyflwyno tystiolaeth yn hwyr, byddwn yn ei dychwelyd os bydd yn ein cyrraedd y tu hwnt i'r dyddiad cau fel y'i hamlinellir yn y llythyr dyddiad dechrau.
- 2.14 Wrth wneud penderfyniad, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn diystyru unrhyw sylw ysgrifenedig, tystiolaeth neu ddogfennau eraill sy'n ei gyrraedd ar ôl y cyfnod cyfnewid (14 wythnos o'r dyddiad dechrau), hyd yn oed os bydd yn codi materion newydd (oni bai bod yr Arolygydd wedi gofyn am ragor o wybodaeth). Os daw sylwadau ar y datganiadau achos i law gan barti sydd eisoes yn gysylltiedig ar ôl y dyddiad cau 14 wythnos, bydd yr Arolygydd ond yn edrych ar y deunydd os oes amgylchiadau anghyffredin dros ei gyflwyno'n hwyr. Os daw'r Arolygydd i'r casgliad fod amgylchiadau anghyffredin, byddwn yn dosbarthu copi at bob parti arall gan roi pythefnos iddynt roi sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gael eu clywed.
- 2.15 Os bydd parti â buddiant cwbl newydd yn cyflwyno gohebiaeth ar ôl y dyddiad cau 14 wythnos, ni fyddwn yn ei derbyn oni bai bod yr awdur yn gallu rhoi rheswm da i ni dros ei chyflwyno'n hwyr. Rheswm derbyniol o bosibl yw ei fod newydd gael gwybod am y gorchymyn. Os na roddir unrhyw

² Gweler paragraff 15 Cylchlythyr Gorchymynion Hawliau Tramwy (Atodiad Dd).

reswm, neu os tybiwn nad yw'r rheswm a roddir yn dderbyniol, byddwn yn dychwelyd yr ohebiaeth. Fel arall, byddwn yn dosbarthu copi at yr holl bartïon eraill gan roi pythefnos iddynt roi sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gael eu clywed.

Argymhellion cyfreithiol

- 2.16 Mae herio gorchymyn neu sylw neu wrthwynebiad ar sail gyfreithiol yn hysbys fel "*argymhelliad cyfreithiol*". Os byddwch am roi argymhelliad cyfreithiol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei gyflwyno gyda'ch datganiad achos. Ar ôl derbyn argymhelliad cyfreithiol, bydd angen i ni benderfynu p'un a yw'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn parhau i fod yn briodol er mwyn penderfynu ar y gorchymyn neu p'un a oes angen trefnu gwrandawriad neu ymchwiliad yn lle. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn rhoi dyfarniad ar argymhellion cyfreithiol, ond fel arfer, mae'n ymateb iddynt yn y penderfyniad. Mae cyngor cyfreithiol ar argymhellion cyfreithiol i'w gael yn Nodyn Cyngor Hawliau Tramwy, Rhif 3 yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r nodyn cyngor ar ein gwefan yn:
<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advice/notes>

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- 2.17 Ar ôl ymweld â'r safle, mae'r Arolygydd yn astudio'r gorchymyn a'r holl dystiolaeth ysgrifenedig ac yna'n rhoi'r meini prawf perthnasol ar waith er mwyn gwneud penderfyniad.
- 2.18 Wedi i benderfyniad terfynol gael ei gyhoeddi a'n holl weithrediadau gael eu cwblhau, caiff ffeil yr achos ei chadw, fel arfer am 12 mis, cyn cael ei dileu.

3 Y Weithdrefn Gwrandawiad

- 3.1 Trafodaeth dan arweiniad Arolygydd yw gwrandawiad. Mae gwrandawiadau'n llai ffurfiol, yn symlach ac yn gyflymach nag ymchwiliadau fel arfer. Ni chynhelir unrhyw groesholi ffurfiol fel arfer ac ni ddylai bara mwy na diwrnod. Maent yn gweithio orau dim ond lle mae ychydig o bobl am gael eu clywed, lle bo'r materion i'w hystyried yn gymharol syml, a lle nad oes fawr o ddadlau ynghylch tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth defnyddwyr. Nid yw gwrandawiadau'n addas ar gyfer achosion sy'n dibynnu ar dystiolaeth defnyddwyr y gellid eu profi orau drwy groesholi. Lle bo gennym orchymyn sy'n bodloni'r meini prawf hyn, rydym yn ysgrifennu i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (sy'n berthnasol) a'r unigolion perthnasol yn gofyn a ydynt yn cytuno i ddefnyddio'r weithdrefn hon.
- 3.2 Yna byddwn yn rhoi **llythyr dyddiad dechrau** i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi ysgrifennu'n datgan buddiant yn y gorchymyn y caiff y weithdrefn wrandawiad ei defnyddio. Mae'r llythyr dyddiad dechrau'n amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Paratoi'r dystiolaeth

- 3.3 Mae'n bwysig i bawb gasglu eu tystiolaeth eu hunain yn dda cyn i'r gwrandawiad ddechrau. Mae'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pob unigolyn perthnasol a phob un sydd am gael eu gwrandaw yn paratoi "datganiad achos" (Atodiad D). Datganiad ysgrifenedig yw hwn yn cynnwys manylion llawn yr achos y mae pob un ohonynt yn bwriadu eu rhoi gerbron yr Arolygydd. Mae copi o bob achos y mae'r datganiad yn cyfeirio ato wedi'i gynnwys yn y datganiad achos (ac eithrio lle bo'r awdurdod lleol eisoes wedi cynnwys dogfen fel rhan o'i ddatganiad achos. Yn yr achos hwn, mae angen i chi gynnwys cyfeiriad at y ddogfen yn unig).
- 3.4 Un o amcanion y rheolau yw sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn yn gwbl ymwybodol o sylwadau ei gilydd a'r dystiolaeth sy'n ategu'r sylwadau hynny cyn i'r gwrandawiad ddechrau. Ni ddylai unrhyw un gadw tystiolaeth yn ôl gyda'r bwriad o synnu'r partïon eraill ar ôl i'r gwrandawiad ddechrau. Gallai gwneud hynny gael ei ystyried yn ymddygiad afresymol, ac, os bydd hyn yn arwain at ohirio neu oedi arall sy'n peri mynd i gostau ychwanegol, gallai hyn olygu bod yr unigolyn sy'n cyflwyno tystiolaeth yn hwyr yn agored i gais i ddyfarnu costau yn eu herbyn (Adran 8). Nid oes rhaid i'r Arolygydd ystyried tystiolaeth a anfonwyd ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben a bydd ond yn gwneud hynny os oes amgylchiadau anghyffredin (Atodiad Dd, paragraff 15).

Heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 3.5 Mae'r awdurdod lleol yn anfon copi o'i ddatganiad achos atom. Mae'r datganiad achos yn cynnwys copi o'r dogfennau y mae'n eu cyflwyno fel tystiolaeth a rhestr o'r holl ddogfennau hyn. Yn ein tro, byddwn yn anfon copi o'i ddatganiad achos – **ac eithrio copïau o'r dogfennau** eu hunain ond yn cynnwys y rhestr o'r dogfennau – at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd am roi tystiolaeth yn y

gwrandawriad. Mae'n rhaid i ddatganiad achos yr awdurdod lleol ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Nid ydym yn derbyn datganiadau a gyflwynir yn hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol neu yn lleoliadau ychwanegol fel y'u rhestrir yn yr hysbysiad (paragraff 3.11).

Heb fod yn hwyrach na 12 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 3.6 Rydym yn rhoi ychydig mwy o amser i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), i'r unigolion perthnasol ac unigolion eraill gyflwyno eu datganiadau achos. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio datganiad achos yr awdurdod lleol a dogfennau ategol. Os caiff dogfen ei chynnwys yn natganiad yr awdurdod lleol, nid oes rhaid i eraill roi copi – gallant gyfeirio at y copi o'r ddogfen a anfonwyd gyda datganiad yr awdurdod lleol.
- 3.7 Mae'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pob unigolyn perthnasol ac unrhyw un arall yn anfon eu datganiad achos atom, ynghyd â rhestr o'r dogfennau hynny yn rhestr yr awdurdod lleol a chopi o bob dogfen arall maent am ei chyflwyno fel tystiolaeth. Rydym yn copïo'r datganiadau a'r dogfennau hyn i'r awdurdod lleol. Rydym hefyd yn anfon copi o ddatganiad yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) heb gynnwys y dogfennau at unigolion perthnasol ac unigolion eraill, a chopi o bob datganiad arall heb gynnwys y dogfennau at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a phob unigolyn perthnasol a phob unigolyn arall. Mae'n rhaid i ddatganiadau achos yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach na 12 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Nid ydym yn derbyn datganiadau hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol neu mewn lleoliadau ychwanegol fel y'u rhestrir yn yr hysbysiad (paragraff 3.11).

Trefnu'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad

- 3.8 Bwriad gwneud trefniadau ar gyfer gwrandawriad a'i gynnal yw creu'r awyrgylch cywir ar gyfer trafod a dileu neu leihau ffurfioldeb yr ymchwiliad cyhoeddus traddodiadol. Lle y bo modd, bydd yr Arolygydd a'r partion yn eistedd o amgylch bwrdd. Mae ystafell bwyllgor fach sy'n eiddo i awdurdod lleol yn foddhaol fel arfer, a dylid osgoi awyrgylch mwy ffurfiol megis Siambr y Cyngor. Dylai lleoliad y gwrandawriad gynnig cyfleusterau digonol ar gyfer y rhai ag anghenion arbennig. Mae'r Arolygiaeth wedi llunio *Nodyn Cyfleusterau ar gyfer Ymchwiliadau a Gwrandawriadau Cyhoeddus* er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddewis lleoliadau addas. Mae'r Nodyn Cyfleusterau ar gael ar ein gwefan: http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue_and_facilities_for_public_inquiries_and_hearings_engwel.pdf
- 3.9 Ein nod fydd trefnu'r gwrandawriad **o fewn 20 wythnos i'r dyddiad dechrau**. Byddwn yn cadarnhau trefniadau'r gwrandawriad yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol a phawb arall sydd wedi mynegi buddiant yn y gorchymyn o leiaf 28 diwrnod cyn y gwrandawriad. Byddwn yn anfon hysbysiad gwrandawriad i'r awdurdod lleol a bydd angen iddynt ei hysbysebu cyn y gwrandawriad

(paragraff 3.11). Mae'r hysbysiad yn rhoi gwybod i bobl am ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad, yn disgrifio'r tir y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef ac effaith y Gorchymyn, lle mae modd archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r Gwrandawriad. Rydym hefyd yn rhoi copi o'r hysbysiad ar ein gwefan yn:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/onlinero/w/onlinerow>

- 3.10 Wedi cadarnhau dyddiad a lleoliad y gwrandawriad, rydym ond yn eu newid mewn amgylchiadau arbennig iawn. Nis hystyrir yn amgylchiad arbennig fel arfer os na fydd yr unigolyn rydych wedi'i ddewis i'ch cynrychioli ar gael, neu yn achos gwyliau'r ysgol neu'r tymor gwyliau. Byddwn yn ystyried gohirio oherwydd salwch, ond bydd angen nodyn gan feddyg. Am y rheswm hwn, dylech roi gwybod i ni ymlaen llaw am unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael a'n hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw ddyddiadau eraill yn anghyfleus i chi fel y gallwn ystyried hyn wrth drefnu dyddiad, os oes modd.

Hysbysebu'r Gwrandawriad

- 3.11 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hysbysebu'r gwrandawriad yn yr ardal leol **heb fod yn llai na phedair wythnos** cyn bod disgwyl iddo ddechrau. Mae'r awdurdod lleol yn gosod hysbysiadau:

- i) ar ddau ben y rhan o'r ffordd/ffyrdd y mae'r gorchymyn yn effeithio arni/arnynt;
- ii) mewn mannau lle mae hysbysiadau wedi'u lleoli fel arfer yn yr ardal leol; ac
- iii) mewn un papur newydd lleol o leiaf.

Bydd yr hysbysiadau yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad, adran y Ddeddf y gwnaed y gorchymyn oddi tani, disgrifiad o'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, effaith y gorchymyn a ble mae modd archwilio a chopio copïau o'r gorchymynion a dogfennau sy'n ymwneud â'r gwrandawriad.

Pwy sy'n gallu mynd

- 3.12 Gall unrhyw un fynd i wrandawriad. Mae'r Arolygydd fel arfer yn caniatáu i bawb sydd am siarad wneud hynny. Nid oes rheidrwydd i neb fynd, ond mae gan yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos hawl i fod yno ac os felly disgwylir iddynt fod yno. Os na fydd parti'n cydymffurfio â rheolau'r weithdrefn, mae'n bosibl y byddant yn agored i gais i ddyfarnu costau yn eu herbyn (Adran 8). Os bydd ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolyn perthnasol yn penderfynu peidio â bod yn bresennol, dylent roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cyflwyno eu hachos eu hunain mewn gwrandawriad, ond gallwch benodi rhywun i siarad drosoch os byddwch am wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw cynrychiolaeth

gyfreithiol ffurfiol (h.y. bargyfreithiwr neu gyfreithiwr sy'n gweithredu fel eiriolwr) yn briodol ar gyfer gwrandawriad.

Beth fydd yn digwydd os tybiwch nad yw gwrandawriad yn briodol mwyach?

3.13 Gallwn newid y weithdrefn ar gyfer penderfynu ar orchymyn cyn i'r gwrandawriad ddechrau neu ar ei anterth. Ymchwiliad neu sylwadau ysgrifenedig yw'r dewisiadau arall. Os bydd yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu'r unigolyn perthnasol yn tybio nad yw gwrandawriad yn briodol ar ôl gweld y datganiadau achos, dylent roi gwybod i ni, gyda rhesymau pam y dylem newid y weithdrefn. Os dewn i'r casgliad nad yw gwrandawriad yn addas, byddwn yn cynnal ymchwiliad neu'n trefnu i sylwadau ysgrifenedig gael eu cyfnewid yn lle. Os bydd yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolyn perthnasol neu unrhyw un sydd wedi cyflwyno datganiad achos yn tybio yn ystod y gwrandawriad nad yw'r weithdrefn yn briodol, dylent roi gwybod i'r Arolygydd. Gallai'r Arolygydd ddod i'r casgliad hefyd y dylid trefnu ymchwiliad. Yn y naill achos neu'r llall, bydd yr Arolygydd yn ymgynghori â'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), ac unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos ac sy'n bresennol ynghylch p'un a ddylid dod â'r gwrandawriad i ben a threfnu ymchwiliad yn lle.

Yn y Gwrandawriad

3.14 Fel bod gan yr Arolygydd gofnod cywir gan bawb yn y gwrandawriad, mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r rhestr bresenoldeb³ y bydd yr awdurdod lleol yn ei dosbarthu. Os nad ydych am siarad yn y gwrandawriad ond yr hoffech gopi o benderfyniad yr Arolygydd, gallwch ofyn i ni am un, neu fel arall, bydd y penderfyniad ar gael ar-lein yn www.planningportal.gov.uk.

3.15 Mae'r Arolygydd yn penderfynu ar y strwythur yn y gwrandawriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Arolygydd yn agor y gwrandawriad, yn cyflwyno ei hun ac yn esbonio'r gyfraith y gwnaed y gorchymyn oddi tani. Bydd yr Arolygydd yn gofyn am enwau'r rhai sydd am siarad. Os byddwch am roi sylwadau ar y ffordd y mae'r gorchymyn wedi'i wneud neu ei brosesu gan yr awdurdod lleol, os oes gennych unrhyw gwestiynau am weithdrefn, neu os bydd angen i chi adael yn gynnar neu fod gennych unrhyw ddymuniadau eraill, nawr yw'r amser i siarad. Wedi i'r Arolygydd benderfynu ar y drefn briodol o barhau, bydd yn cadw ati oni bai bod rhesymau da iawn dros newid.

3.16 Mae'r Arolygydd yn arwain y drafodaeth drwy:

- amlygu'r hyn y mae'n ei weld fel y prif faterion o ddarllen y datganiadau achos ac unrhyw ymweliad â safle; ac
- amlygu materion lle mae angen esboniad pellach arno.

³ Os nad ydych am i'ch manylion gael eu gweld, gellir llenwi ffurflen ar wahân a'i rhoi i'r Arolygydd erbyn diwedd y gwrandawriad.

Nid yw hyn yn atal unrhyw un arall rhag amlygu materion eraill i'w hystyried neu rhag cyfeirio at faterion eraill sy'n berthnasol i ystyried y Gorchymyn, yn eu tyb nhw.

- 3.17 Mae'r Arolygydd yn annog pawb yn y gwrandawriad i gymryd rhan yn y drafodaeth. Gan fod gwrandawriad yn cael ei drefnu dim ond pan fo'n debygol na fydd fawr o ddadlau ynghylch tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth gan ddefnyddwyr, nid yw croesholi partïon gwrthwynebol yn briodol nac yn angenrheidiol fel arfer. Mewn achosion eithriadol, gall yr Arolygydd ganiatáu croesholi, ond dim ond os bydd yn tybio bod angen hynny er mwyn archwilio'r materion yn llawn. Mae'r Arolygydd fel arfer yn gofyn i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth a ydynt am roi unrhyw sylwadau terfynol cyn i'r drafodaeth ddod i ben, gan gloi fel arfer gyda'r awdurdod lleol.
- 3.18 Bydd yr Arolygydd yn rhoi terfyn ar roi neu gyflwyno tystiolaeth, gofyn cwestiynau neu gyflwyno unrhyw fater arall os bydd yn tybio ei fod yn ailadroddus neu'n amherthnasol. Bydd hefyd yn rhoi terfyn ar holi ymosodol neu dramgwyddus neu unrhyw ymddygiad arall sy'n amhriodol, yn ei dyb ef. Os caiff unrhyw un ei atal gan yr Arolygydd rhag cwblhau ei dystiolaeth, gall roi'r dystiolaeth honno neu unrhyw fater arall i'r Arolygydd yn ysgrifenedig cyn i'r gwrandawriad ddod i ben.

Ymweliadau Safle

- 3.19 Pwrpas ymweliad safle yw i'r Arolygydd weld y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef ynghyd â'r ardal gyfagos ac i gofnodi nodweddion ffisegol megis camfeydd, gatau, ffensys, waliau, gwrychoedd a choed. Mae'r Arolygydd fel arfer yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun cyn i'r gwrandawriad ddechrau. Gall ymweld â'r safle hefyd ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben. Mae'n rhaid i'r Arolygydd ymweld â'r safle os bydd yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), yr unigolyn perthnasol, neu unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos yn gofyn iddo/iddi am wneud hynny. Gall unrhyw un yn y gwrandawriad fynd gyda'r Arolygydd ar yr ymweliad hwn cyn belled â bod modd i gynrychiolwyr o'r ddwy ochr fod yn bresennol (paragraff 3.22) a, lle bo ymweliad safle'n cael ei gynnal ar dir preifat, bod perchennog y tir wedi rhoi ei ganiatâd. Lle nad oes unrhyw hawl mynediad cyffredinol, nid oes gan yr Arolygydd unrhyw hawl i roi mynediad. Oherwydd ymarferoldeb a materion diogelwch a allai godi, mae gan yr Arolygydd ddisgresiwn i gyfyngu ar y niferoedd sy'n ymweld â safle fel y bo'n briodol.
- 3.20 Gall y rhai sy'n bresennol dynnu sylw at nodweddion ffisegol y maent wedi sôn amdanynt yn eu tystiolaeth, ond gan fod yr ymweliad yn cael ei gynnal ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, ni fydd yr Arolygydd yn trafod yr achos o blaid y gorchymyn neu yn ei erbyn nac unrhyw faterion eraill.
- 3.21 O bryd i'w gilydd, gall yr Arolygydd benderfynu yn ystod y gwrandawriad y gellid mynd i'r afael â materion penodol yn haws pe bai'r drafodaeth yn parhau ar y safle. Os bydd Arolygydd yn penderfynu gwneud hyn, bydd yn cyhoeddi'r manylion cyn gohirio i'r safle, ond bydd ond yn gwneud hynny os yw'n fodlon:

- bod y tywydd yn addas;
- bod modd i bawb yn y gwrandawriad sydd am fod yn bresennol wneud hynny;
- na fydd neb o dan anfantais; ac
- nad oes unrhyw wrthwynebiadau rhesymol i barhau i gynnal y gwrandawriad ar y safle.

3.22 Mae Arolygwyr yn sicrhau bod ymweliadau safle yng nghwmni eraill yn cael eu cynnal pan fod modd i gynrychiolwyr dwy ochr dadl (o blaid ac yn erbyn y gorchymyn) fod yn bresennol ond nid oes angen iddynt ohirio archwiliad os nad yw unrhyw un sydd wedi dweud eu bod yn bwriadu mynd yn bresennol. Os nad yw cynrychiolwyr o'r ddwy ochr yn bresennol, bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- 3.23 Ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad.
- 3.24 Wedi i benderfyniad terfynol gael ei roi ac wedi i'n holl weithredoedd gael eu cwblhau, caiff ffeil yr achos ei chadw, am 12 mis fel arfer, cyn cael ei dileu.

4 Ymchwiliadau Cyhoeddus Lleol

- 4.1 Lleoliadau ffurfiol lle y caiff tystiolaeth ei chlywed a lle bo tystion yn agored i gael eu croesholi yw ymchwiliadau cyhoeddus. Ymchwiliadau yw'r dewis gorau pan fo llawer o dystiolaeth, neu pan fo tystiolaeth sy'n gwrthdaro, neu pan fo nifer o unigolion perthnasol. Lle bo gennym orchymyn sy'n bodloni'r meini prawf hyn, rydym yn ysgrifennu i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at yr unigolion perthnasol yn gofyn iddynt gytuno i ddefnyddio'r weithdrefn hon.
- 4.2 Yna rydym yn rhoi **llythyr dyddiad dechrau** i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi ysgrifennu'n mynegi buddiant yn y gorchymyn y caiff y weithdrefn ymchwiliad ei defnyddio. Mae'r llythyr dechrau'n amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Paratoi'r dystiolaeth

- 4.3 Mae'n bwysig i bawb roi eu holl dystiolaeth at ei gilydd ymhell cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Mae'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill sydd am ymddangos yn yr ymchwiliad oll yn paratoi "datganiad achos" (Atodiad D). Datganiad ysgrifenedig yw hwn yn cynnwys manylion llawn yr achos y mae pob un ohonynt yn bwriadu eu rhoi gerbron yr Arolygydd. Mae'n cynnwys copïau o unrhyw ddogfennau y maent yn bwriadu cyfeirio atynt neu eu rhoi mewn tystiolaeth. Nid oes angen i'r awdurdod lleol baratoi datganiad achos os nad oes ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu at y datganiad rhesymau a anfonodd gyda'r gorchymyn.
- 4.4 Un o amcanion y rheolau yw sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn yn gwbl ymwybodol o sylwadau ei gilydd a'r dystiolaeth sy'n ategu'r sylwadau hynny cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Ni ddylai unrhyw un gadw tystiolaeth yn ôl gyda'r bwriad o synnu'r partion eraill ar ôl i'r ymchwiliad ddechrau. Gall yr Arolygydd wrthod derbyn unrhyw dystiolaeth hwyr a gyflwynir yn yr ymchwiliad. Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu ei derbyn, gellid ystyried bod yr unigolyn sy'n cyflwyno'r dystiolaeth hwyr wedi ymddwyn yn afresymol, ac os bydd hyn yn arwain at ohirio neu oedi arall sy'n achosi gwariant ychwanegol, gallai hyn olygu bod yr unigolyn yn agored i gais i ddyfarnu costau yn ei erbyn (Adran 8). Ni fydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw dystiolaeth a anfonir ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben oni bai bod amgylchiadau eithriadol dros wneud hynny.

Heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 4.5 Mae'r awdurdod lleol yn anfon copi o'i ddatganiad achos atom gan gynnwys copi o'r dogfennau y mae'n ei gyflwyno fel tystiolaeth a rhestr o'r holl ddogfennau hynny. Yn ein tro, rydym yn anfon copi o'i ddatganiad achos – **heb gynnwys copïau o ddogfennau** eu hunain ond gan gynnwys y rhestr ddogfennau – at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), i unigolion perthnasol ac unrhyw un arall rydym yn gwybod eu bod am roi tystiolaeth yn yr ymchwiliad. Mae'n rhaid i ddatganiad achos yr awdurdod lleol ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Nid

ydydym yn derbyn datganiadau hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol neu yn swyddfeydd ychwanegol fel y'u rhestrir yn yr hysbysiad (paragraff 4.19).

Heb fod yn hwyrach na 14 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau

- 4.6 Rydym yn rhoi ychydig mwy o amser i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), i unigolion perthnasol ac i unigolion eraill â buddiant gyflwyno eu datganiadau achos. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt archwilio datganiad yr awdurdod lleol a dogfennau ategol. Os caiff dogfen ei chynnwys yn natganiad achos yr awdurdod lleol, nid oes angen i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill roi copi – gallant gyfeirio at y copi o'r ddogfen a anfonwyd gyda datganiad yr awdurdod lleol.
- 4.7 Mae'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pob unigolyn perthnasol ac unrhyw un arall â buddiant yn anfon ei ddatganiad achos ac unrhyw ddogfennau ategol atom y mae am eu cyflwyno fel tystiolaeth yn ogystal â rhestr o'r dogfennau hynny. Rydym yn copïo'r datganiadau a'r dogfennau hyn i'r awdurdod lleol. Rydym hefyd yn copïo datganiad yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) heb gynnwys y dogfennau i unigolion perthnasol ac unigolion eraill sydd wedi anfon datganiad achos atom ac yn copïo datganiadau achos yr unigolyn perthnasol a datganiadau achos unigolion eraill heb gynnwys y dogfennau i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac i bob unigolyn perthnasol ac unigolyn arall. Mae'n rhaid i ddatganiadau achos yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), yr unigolion perthnasol ac unigolion eraill ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach na 14 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau**. Nid ydym yn derbyn datganiadau hwyr fel arfer. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol neu mewn lleoliadau ychwanegol fel y'u rhestrir yn yr hysbysiad (paragraff 4.19).

Heb fod yn hwyrach na phedair wythnos cyn i'r ymchwiliad ddechrau

- 4.8 Wrth i ddyddiad yr ymchwiliad agosáu, dylai'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill â buddiant baratoi'r achos - "prawf tystiolaeth" - eu bod yn bwriadu cyflwyno i'r ymchwiliad. Dylai hyn ganolbwyntio ar y materion y ceir dadlau yn eu cylch yn hytrach nag adrodd yr holl dystiolaeth sydd ar gael. (Cofiwch fod pawb wedi cael y cyfle i archwilio datganiad achos pawb arall.) Yn wir, gall fod yn ddefnyddiol dod o hyd i feysydd lle y ceir cytundeb. Gallwch ddefnyddio eich prawf tystiolaeth i roi sylwadau ar eich tystiolaeth neu i ychwanegu ati yng ngoleuni'r hyn y mae eraill wedi'i ddweud yn eu datganiad achos ond ni ddylech gyflwyno tystiolaeth hollol newydd. Ni ddylai prawf tystiolaeth gynnwys dogfennau ategol (dylai pob dogfen o'r fath gael ei chyflwyno gyda'ch datganiad achos). Ond os nad oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu at eich datganiad achos, dylech ysgrifennu atom a rhoi gwybod i ni. Yn yr achos hwn, byddwn yn ystyried eich datganiad achos fel eich prawf tystiolaeth.
- 4.9 Os yw'ch prawf tystiolaeth (neu ddatganiad achos lle nad ydych yn cyflwyno prawf) yn hwy na 1,500 gair (tua thair dalen A4 wedi'u teipio), mae'n rhaid i chi roi crynodeb ysgrifenedig y mae'n rhaid i chi ei gyflwyno yn ddiweddarach yn hytrach na darllen y prawf tystiolaeth cyfan. Dylai'r crynodeb fod yn

gymesur â'r prif brawf tystiolaeth ond ni ddylai fod yn hwy na 1500 gair. Dylid darparu'r crynodeb ar yr un pryd ag y caiff y prif brawf tystiolaeth ei gyflwyno. Sylwer, fodd bynnag, y bydd tystion yn agored i gael eu croesholi ar bob rhan o'r prif brawf tystiolaeth.

- 4.10 Mae'n rhaid i brawf tystiolaeth (neu hysbysiad bod datganiad achos i'w ystyried fel prawf tystiolaeth) ac unrhyw grynodedau ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach na phedair wythnos cyn dechrau'r ymchwiliad**. Nid ydym yn derbyn prawf tystiolaeth a gyflwynir yn hwyr fel arfer.
- 4.11 Yn ein tro, rydym yn anfon copïau o brawf tystiolaeth pawb ac unrhyw grynoded i'r awdurdod lleol. Rydym hefyd yn anfon copïau, **heb gynnwys unrhyw atodiadau atodedig**, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), at bob unigolyn perthnasol ac unigolion eraill sydd wedi cyflwyno datganiad achos. Os byddwch am edrych ar y ddogfennaeth, gallwch ei harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol neu mewn lleoliadau ychwanegol fel y'u rhestrir yn yr hysbysiad (paragraff 4.19).

Pa mor hir yw ymchwiliad?

- 4.12 Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau'n para un neu ddau ddiwrnod. Gallwn gynghori ar ba mor hir y mae ymchwiliad yn debygol o bara, ond nid oes unrhyw ffordd o wybod faint bydd yn ei gymryd mewn gwirionedd ac ni allwn gyfyngu ar ei hyd ychwaith. Mae hyd pob ymchwiliad yn dibynnu ar nifer y bobl sydd am siarad, faint o dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno a nifer y tystion sy'n cael eu croesholi. Fodd bynnag, gan fod yr holl dystiolaeth gan y prif bartion yn cael ei chyflwyno a'i chyfnewid ymhell cyn yr ymchwiliad – fel sy'n ofynnol o dan y rheolau – mae hyn yn debygol o fyrhau'r broses. Dylai fod yn gyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan helpu'r Arolygydd i drefnu'r ymchwiliad drwy roi amcangyfrif synhwyrol o faint bydd yn ei gymryd i gyflwyno eu hachos, gan gynnwys croesholi tystion y parti gwrthwynebol a'u datganiadau cloi. Os na allwch fod yn bresennol ar bob diwrnod o ymchwiliad, dylech roi gwybod i'r Arolygydd yn ystod ei gyflwyniad fel bod modd gwneud trefniadau i chi gyflwyno eich tystiolaeth ar ddiwrnod penodol.
- 4.13 Dylech fod yn ymwybodol y gallai fod angen eich croesholi o ran eich tystiolaeth. Os nad yw hyn yn bosibl, gan nad ydych yn bresennol, gallai arwain at yr Arolygydd yn rhoi llai o bwys arni na thystiolaeth lle y croesholwyd tystion.

Cyfarfodydd cyn Ymchwiliad

- 4.14 Mae'r rhain yn brin iawn ond, os yw ymchwiliad yn debygol o bara mwy nag wyth niwrnod, rydym yn trefnu cyfarfod cyn ymchwiliad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydym yn mynd i wneud hyn ac yn rhoi o leiaf 12 diwrnod o rybudd i chi am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod. Ni chaiff unrhyw dystiolaeth ei chyflwyno i'r Arolygydd ac ni chaiff ei chlywed ganddo ychwaith. Pwrpas y cyfarfod yw rhoi'r cyfle i'r rhai sy'n bwriadu cymryd rhan yn yr ymchwiliad gytuno ar drefniadau gweithdrefnol a gweinyddol mewn perthynas â'r drefn y bydd unigolion yn rhoi tystiolaeth neu, os bydd y gorchymyn yn cynnwys nifer o lwybrau, y drefn ar gyfer ymdrin â'r llwybrau.

Trefnu'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad

- 4.15 Rydym yn trefnu dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer yr ymchwiliad mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol. Wrth ddewis lleoliad, dylai awdurdodau lleol ddilyn canllawiau'r Arolygiaeth yn y Nodyn Cyfleusterau ar gyfer Ymchwiliadau a Gwrandawiadau Cyhoeddus. Ymhlith pethau eraill, mae'r nodyn yn cynnwys arweiniad ar y lleoliad, sut y dylai ystafell yr ymchwiliad edrych a pha gyfleusterau a ddylai fod ar gael. Mae'r nodyn ar gael ar ein gwefan yn: <http://www.planningportal.gov.uk>.
- 4.16 Byddwn yn ceisio trefnu'r ymchwiliad **o fewn 26 wythnos i'r dyddiad dechrau**. Byddwn yn cadarnhau trefniadau'r ymchwiliad yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol a phawb arall sydd wedi mynegi buddiant yn y gorchymyn o leiaf 28 diwrnod cyn yr ymchwiliad. Byddwn yn anfon hysbysiad o ymchwiliad i'r awdurdod lleol y bydd angen iddynt ei hysbysebu cyn yr ymchwiliad (paragraff 4.19). Mae'r hysbysiad yn rhoi gwybod i bobl am ddyddiad, amser a lleoliad yr ymchwiliad, yn disgrifio'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef ac effaith y gorchymyn, lle mae modd archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Rydym hefyd yn rhoi copi o'r hysbysiad ar ein gwefan yn: <http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/onlinero/w/onlinerow>
- 4.17 Wedi i'r dyddiad a'r lleoliad gael eu hysbysebu, rydym ond yn eu newid mewn amgylchiadau arbennig iawn. Nis hystyrir yn amgylchiad arbennig fel arfer os na fydd yr unigolyn rydych wedi'i ddewis i'ch cynrychioli ar gael, neu yn achos gwyliau'r ysgol neu'r tymor gwyliau. Byddwn yn ystyried gohirio oherwydd salwch, ond bydd angen nodyn gan feddyg. Am y rheswm hwn, dylech roi gwybod i ni ymlaen llaw am unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael a'n hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw ddyddiadau eraill yn anghyfleus i chi fel y gallwn ystyried hyn, os oes modd.

Pwy sy'n gallu mynd

- 4.18 Gall unrhyw un fynd i wrandawriad. Mae gan yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pob unigolyn perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos hawl i fod yn bresennol yn yr ymchwiliad ond mae'r Arolygydd fel arfer yn caniatáu i bawb sydd â chyfraniad perthnasol i'w wneud gyfrannu. Nid oes rheidrwydd i neb fynd, ond rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos fod yno. Os na fydd parti'n cydymffurfio â rheolau'r weithdrefn, mae'n bosibl y byddant yn agored i gais i ddyfarnu costau yn eu herbyn (Adran 8). Os bydd ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolyn perthnasol yn penderfynu peidio â bod yn bresennol, dylent roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn anfon cynrychiolwyr os na allant fod yn bresennol yn bersonol.
- 4.19 Mae llawer o bobl yn siarad drostynt eu hunain, ond gallwch benodi rhywun – gweithiwr proffesiynol, adnabod neu ffrind – i siarad ar eich rhan. Nid yw penodi gweithiwr proffesiynol yn golygu bod eich achos o fwy o bwys na pe baech yn ei gyflwyno eich hun. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall yr awdurdod lleol a'r prif bartion feddu ar gynrychiolwyr cyfreithiol (bargyfreithiwr neu

gyfreithiwr yn gweithredu fel eiriolwr). Fodd bynnag, ni waeth sut y caiff y dystiolaeth berthnasol ei chyflwyno, mae'r Arolygydd yn ystyried achos pawb gyda'r un gofal.

Hysbysebu'r Ymchwiliad

4.20 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hysbysebu'r ymchwiliad yn yr ardal leol heb **fod yn llai na phedair wythnos** cyn bod disgwyl iddo ddechrau. Mae'r awdurdod lleol yn gosod hysbysiadau:

- i) ar ddau ben y rhan o'r ffordd/ffyrdd y mae'r Gorchymyn yn effeithio arni/arnynt;
- ii) mewn mannau lle mae hysbysiadau wedi'u lleoli fel arfer yn yr ardal leol; ac
- iii) mewn un papur newydd lleol o leiaf.

Mae'r hysbysiadau'n cynnwys dyddiad, amser a lleoliad yr ymchwiliad, adran y Ddeddf y gwnaed y Gorchymyn oddi tani, disgrifiad o'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, effaith y gorchymyn a manylion am ble a phryd mae modd archwilio a chopio copïau pob un o'r dogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.

Yn yr Ymchwiliad

4.21 Fel bod gan yr Arolygydd gofnod cywir o bawb yn yr ymchwiliad, mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r rhestr bresenoldeb⁴ y bydd yr awdurdod lleol yn ei dosbarthu. Os nad ydych am siarad yn y gwrandawriad ond yr hoffech gopi o benderfyniad yr Arolygydd, gallwch ofyn i ni am un, neu fel arall, bydd y penderfyniad ar gael ar-lein yn www.planningportal.gov.uk.

4.22 Mae'r Arolygydd yn penderfynu ar weithdrefn y gwrandawriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Arolygydd yn agor y gwrandawriad, yn cyflwyno ei hun ac yn esbonio'r gyfraith y gwnaed y Gorchymyn oddi tani. Bydd yr Arolygydd yn gofyn am enwau'r rhai sydd am siarad. Byddant yn enwi'r prif faterion, yn eu tyb nhw. Os byddwch am roi sylwadau ar y ffordd y mae'r gorchymyn wedi'i wneud neu ei brosesu gan yr awdurdod lleol, os oes gennych unrhyw gwestiynau am weithdrefn, neu os bydd angen i chi adael yn gynnar neu fod gennych unrhyw ddymuniadau eraill, nawr yw'r amser i siarad. Bydd yr Arolygydd yn gofyn i'r prif bartion amcangyfrif faint o amser y bydd yn ei gymryd iddynt gyflwyno eu hachosion, croesholi tystion y parti gwrthwynebol a rhoi eu hargymhellion terfynol.

4.23 Mae'r Arolygydd yn penderfynu ar y drefn y bydd yr awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unigolion eraill yn siarad. Wedi i'r Arolygydd benderfynu ar drefn y broses, bydd yn cadw ati oni bai bod rhesymau da iawn dros ei newid.

⁴ Os nad ydych am i'ch manylion gael eich gweld, llenwch ffurflen ar wahân a'i rhoi i'r Arolygydd erbyn diwedd yr ymchwiliad.

Cyflwyno'r achosion

- 4.24 Fel arfer, mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno ei achos ef yn gyntaf, cyn y rhai sy'n cefnogi'r gorchymyn, y rhai sy'n gwrthwynebu'r gorchymyn ac unrhyw un arall y mae'r Arolygydd yn caniatáu iddo siarad. Cynigir y cyfle i bob un o'r prif bartion roi datganiad agoriadol byr er mwyn amlinellu eu hachos cyn galw ar eu tystion i roi tystiolaeth. Bydd yr Arolygydd yn rhoi terfyn ar unrhyw un sy'n ailadrodd tystiolaeth yn ddiangen neu sy'n rhoi sylwadau amherthnasol.
- 4.25 Os byddwch yn rhoi tystiolaeth, mae'n bosibl y bydd angen i chi ateb cwestiynau am y dystiolaeth honno gan y cefnogwyr (os ydych yn wrthwynebwyr) neu i'r gwrthwynebwyr. Yn eich tro, gallwch roi cwestiynau gerbron tystion sy'n gwrthwynebu eich safiad eich hun wedi iddynt roi eu tystiolaeth. Mae'r weithdrefn hon yn hysbys fel croesholi. Mae'n bosibl y bydd gan yr Arolygydd ei gwestiynau ei hun i'w gofyn i dystion, ond nid yw hyn yn rhan o groesholi.
- 4.26 Os nad ydych yn gyfarwydd â sut neu ba bryd y bydd croesholi'n mynd rhagddo, bydd yr Arolygydd yn eich arwain yn hyn o beth. Nid yw cefnogwyr gorchymyn, neu wrthwynebwyr, yn croesholi ei gilydd fel arfer oni bai eu bod yn anghytuno ar bwynt pwysig⁵. Bydd yr Arolygydd yn rhoi terfyn ar groesholi os yw'r cwestiynau'n ailadroddus neu'n amherthnasol. Bydd yr Arolygydd hefyd yn rhoi terfyn ar unrhyw holi ymosodol neu sarhaus neu unrhyw ymddygiad arall sy'n amhriodol, yn ei dyb ef. Os caiff unrhyw un ei atal gan yr Arolygydd rhag cwblhau ei dystiolaeth, gall roi tystiolaeth i'r Arolygydd neu unrhyw fater arall yn ysgrifenedig cyn diwedd yr ymchwiliad.
- 4.27 Mae'r Arolygydd fel arfer yn caniatáu i unrhyw un sy'n siarad o blaid neu yn erbyn y gorchymyn sydd wedi cyflwyno llawer o dystiolaeth ac sydd wedi galw ar nifer o dystion i roi datganiad cloi. Mae'r awdurdod lleol fel arfer yn rhoi ei ddatganiad cloi ar ôl i bawb arall siarad. Crynodebau byr o'r achos sydd eisoes wedi'i gyflwyno yw datganiadau cloi. Ni ddylent gynnwys unrhyw dystiolaeth newydd. Fodd bynnag, os bydd parti'n codi materion newydd ar yr adeg hon, neu os bydd parti'n cyflwyno rhywbeth sy'n ymwneud â phwynt cyfreithiol, bydd yr Arolygydd yn rhoi'r cyfle i'r parti eraill ymateb. Bydd yr Arolygydd yn caniatáu'r hawl terfynol i ymateb i'r parti a gyflwynodd y mater neu a roddodd y cyflwyniad cyfreithiol (Adran 5, paragraff 5.13 – 5.15).

Ymweliadau Safle

- 4.28 Pwrpas ymweliad safle yw i'r Arolygydd weld y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef a'r tir cyfagos ac i gofnodi nodweddion ffisegol megis camfeydd, gatau, ffensys, waliau, gwrychoedd a choed. Mae'r Arolygydd fel arfer yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun cyn dechrau'r ymchwiliad. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn ymweld ag ef ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Mae'n rhaid i'r Arolygydd ymweld â'r safle os yw'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolyn perthnasol, neu unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos yn gofyn iddo wneud hynny. Gall unrhyw un yn yr ymchwiliad fynd gyda'r Arolygydd ar ei ail ymweliad hwn cyn belled â bod

⁵ Dylai awdurdodau alw ar gefnogwyr a'r rhai â thystiolaeth defnyddwyr fel tystion os yw eu tystiolaeth yn rhan hanfodol o'i achos.

modd i gynrychiolwyr o'r ddwy ochr fod yn bresennol (paragraff 4.29) a lle bo ymweliad safle'n cael ei gynnal ar dir preifat, lle bo perchennog y tir wedi rhoi ei ganiatâd. Lle nad oes unrhyw hawl mynediad cyffredinol, nid oes gan yr Arolygydd unrhyw hawl i roi mynediad. Oherwydd ymarferoldeb a materion diogelwch a allai godi, mae gan yr Arolygydd ddisgresiwn i gyfyngu ar y niferoedd sy'n ymweld â safle fel y bo'n briodol.

- 4.29 Gall y rhai sy'n bresennol dynnu sylw at nodweddion ffisegol y maent wedi sôn amdanynt yn eu tystiolaeth, ond gan fod yr ymweliad yn cael ei gynnal ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, ni fydd yr Arolygydd yn trafod yr achos o blaid neu yn erbyn y gorchymyn.
- 4.30 Mae Arolygwyr yn sicrhau bod ymweliadau safle yng nghwmni eraill yn cael eu cynnal pan fod modd i gynrychiolwyr o'r ddwy ochr (o blaid neu yn erbyn y gorchymyn) fod yn bresennol ond nid oes angen iddynt ohirio archwiliad os nad yw unrhyw un sydd wedi dweud ei fod am fynychu'n bresennol. Os nad yw cynrychiolwyr o'r ddwy ochr yn bresennol, bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- 4.31 Ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad.
- 4.32 Wedi i benderfyniad terfynol gael ei roi ac i'n holl weithredoedd gael eu cwblhau, caiff ffeil yr achos ei chadw, am 12 mis fel arfer, cyn cael ei dileu.

5 Materion eraill sy'n berthnasol i Wrandawiadau ac Ymchwiliadau

Gorchmynion nad yw'r Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn yn eu cefnogi

- 5.1 Nid yw Awdurdodau sy'n Gwneud Gorchmynion bob amser yn cefnogi gorchmynion maent wedi'u gwneud. Mae'n bosibl y bydd awdurdod wedi cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn, neu y bydd tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg ar ôl gwneud y gorchymyn sy'n arwain at yr awdurdod yn newid ei farn. Bydd yr awdurdod fel arfer yn mabwysiadu safiad diduedd, neu'n gwrthwynebu'r gorchymyn.
- 5.2 Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod esbonio i ni nad yw'n cefnogi'r gorchymyn a anfonodd atom. Ond mae'n rhaid i'r awdurdod gyflwyno'r holl ddogfennau ar y rhestr wirio o hyd (Adran 1, paragraff 1.4), ar wahân i'r datganiad rhesymau a sylwadau ar y gwrthwynebiad(au), hysbysebu'r gorchymyn a chynnig lleoliad ar gyfer gwrandawriad neu ymchwiliad neu eu mynychu.
- 5.3 Yn yr amgylchiadau hyn, gofynnir i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol), neu gefnogwr y gorchymyn os yw am ddatgan achos i gefnogi'r gorchymyn. Os yw'n cytuno, byddai disgwyl iddo gyflwyno ei ddatganiad achos ar yr adeg pan fyddai'r awdurdod wedi cyflwyno ei ddatganiad ef (h.y. heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau). Er y byddem yn disgwyl i'r unigolyn sy'n dwyn yr achos yn ei flaen gyflwyno ei ddatganiad achos fel pe bai'n awdurdod lleol, nid yw'r rheolau'n datgan bod yn rhaid iddo wneud hynny ac felly, os daw un i law ar yr un adeg ar gyfer pob parti arall (12 wythnos o'r dyddiad dechrau ar gyfer gwrandawiadau a 14 wythnos o'r dyddiad dechrau ar gyfer ymchwiliadau), caiff ei dderbyn. Er hynny, ni waeth beth fo safiad yr awdurdod, mae'r rheolau'n golygu bod yr awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod dogfennau'n cael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen.
- 5.4 Os nad oes neb yn barod i arwain o ran cefnogi'r gorchymyn yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, a chan gymryd nad oes modd penderfynu ar yr achos drwy gyfnewid sylwadau ysgrifenedig, bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y gorchymyn yn seiliedig ar y dogfennau sydd eisoes ar y ffeil.
- 5.5 Lle bo'r awdurdod o'r farn na ddylid cadarnhau'r gorchymyn, mae hyn yn cynnwys unrhyw orchmynion y maent wedi cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i'w gwneud, byddai'n hollol briodol i'r awdurdod ymddangos yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad fel gwrthwynebwr, yn hytrach na mabwysiadu safiad diduedd. Yn wir, gall safiad o'r fath fod yn ddefnyddiol i'r partion dan sylw, yn ogystal â'r Arolygydd. Mae Nodyn Cyngor Hawliau Tramwy 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ymdrin â'r gorchmynion hyn. Mae'r nodyn hwn ar ein gwefan yn:
<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advicenotes>

Beth os wyf yn un o'r prif bartïon, (y gorchymyn sy'n gwneud yr unigolyn perthnasol ac ati) a bod gennyf dystiolaeth hwyr neu na allaf fodloni'r dyddiadau ar gyfer anfon tystiolaeth ar gyfer achosion yr ymdrinnir â nhw ar ffurf Gwrandawriad neu Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus?

- 5.6 Mae anfon deunydd yn hwyr sy'n peri oedi i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad yn annheg ar eraill sydd â buddiant yn y gorchymyn. Byddwn yn dychwelyd dogfennau a gyflwynir yn hwyr. Ond mae'n bosibl y byddwn yn derbyn deunydd ar ôl yr amseroedd a amlinellir yn y rheolau os gallwch ddangos bod amgylchiadau eithriadol⁶ pam na allech fodloni'r amser. Gallai rhesymau da gynnwys lle bod oedi o ran deunydd oherwydd streic swyddfa'r post, neu salwch (ond bydd angen nodyn gan feddyg arnom), neu lle bod newid munud olaf mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad.
- 5.7 Mae gan yr Arolygydd y disgrisiwn i ganiatáu i bobl newid neu ychwanegu at eu datganiadau achos, neu eu prawf tystiolaeth, yn ystod gwrandawriad neu ymchwiliad. Os byddwch yn dod â thystiolaeth newydd i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad, dylech ddod â digon o gopiâu i bawb gyda chi. Dylai'r awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau copïo ond ni ddylech ragdybio y bydd cyfleusterau ar gael. Gall yr Arolygydd ohirio'r broses er mwyn rhoi digon o amser i eraill ystyried y newidiadau hyn.
- 5.8 Dylech fod yn ymwybodol os byddwch yn achosi'n afresymol i eraill fynd i gostau ychwanegol o ganlyniad i gyflwyno eich deunydd yn hwyr, neu drwy gynnig tystiolaeth wedi'i haddasu neu dystiolaeth newydd ar ganol y broses, neu drwy addasu neu ychwanegu at dystiolaeth yn ddiweddarach, gallant wneud cais i ddyfarnu costau yn eich erbyn (Adran 8).

Os nad wyf yn unigolyn perthnasol a bod gennyf dystiolaeth berthnasol ond nad wyf am ymddangos yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad?

- 5.9 Dylech roi gwybod i ni mewn da bryd nad ydych am ymddangos. Byddem yn disgwyl i chi anfon eich sylwadau ysgrifenedig, eich tystiolaeth neu'ch sylwadau atom o fewn y terfynau amser a amlinellir yn y rheolau. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn deunydd a gyflwynir yn hwyr os gallwch roi rheswm da i ni dros ei gyflwyno'n hwyr. Gallai rheswm derbynol gynnwys eich bod newydd ddod yn ymwybodol o'r gorchymyn, er enghraifft, drwy ddigwydd gweld yr hysbysiad safle. Os na roddir unrhyw reswm, neu os na fydd eich rheswm yn dderbynol i ni, byddwn yn dychwelyd yr ohebiaeth atoch. Os felly, gallwch roi eich tystiolaeth i'r Arolygydd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad. Bydd gan yr Arolygydd y disgrisiwn i benderfynu p'un ai i'w derbyn ai pheidio. Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu ystyried eich tystiolaeth, bydd yr Arolygydd yn datgelu ei fod wedi derbyn eich deunydd. Fodd bynnag, dylech gofio na fydd yr Arolygydd yn gallu rhoi cymaint o bwys ar dystiolaeth na chlywyd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad ac sydd wedi bod yn agored i gael eu croesholi.
- 5.10 Os byddwn yn derbyn eich rhesymau dros gyflwyno gohebiaeth yn hwyr, byddwn yn dosbarthu copi i'r holl bartïon eraill.

⁶ Gweler paragraff 15 Cylchlythyr Gorchymynion Hawliau Tramwy sydd wedi'i atodi i gefn y llyfryn hwn.

Beth os na fyddaf yn bresennol?

- 5.11 Os gofynnoch am gael eich clywed, rydym yn disgwyl i chi neu'ch cynrychiolydd fod yn bresennol. Fodd bynnag, gall yr Arolygydd ddwyn gwrandawriad neu ymchwiliad yn ei flaen hyd yn oed os na fydd yr unigolyn sydd â hawl i siarad yn bresennol.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn tarfu ar y gwrandawriad neu'r ymchwiliad?

- 5.12 Gall yr Arolygydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n ymddwyn mewn ffordd aflonyddgar adael y broses a gwrthod caniatáu iddo ddychwelyd, neu caniatáu iddo ddychwelyd dim ond os bydd yn cytuno i'r amodau a amlinellwyd ganddo. Ond os bydd yr Arolygydd yn gofyn i unrhyw un adael neu'n gwrthod caniatâd i unrhyw un roi tystiolaeth yn bersonol, gall yr unigolyn hwnnw roi tystiolaeth neu unrhyw fater arall yn ysgrifenedig cyn i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddod i ben.

Beth os byddaf yn darganfod tystiolaeth newydd ar ôl i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddod i ben?

- 5.13 Yn bur anaml y dylai hyn ddigwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y partiön wedi cael misoedd lawer i ymchwilio i'w tystiolaeth a'i pharatoi cyn i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddechrau. Byddai'n rhaid dangos amgylchiadau eithriadol pam nad oedd modd i dystiolaeth hwyr fel hon fod ar gael o fewn amserlen y gwrandawriad neu'r ymchwiliad a amlinellir yn y Rheolau.
- 5.14 Byddwn ond yn trosglwyddo unrhyw sylwadau, tystiolaeth ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall a anfonir atom ar ôl i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddod i ben os oes amgylchiadau eithriadol mewn perthynas â'u cyflwyno'n hwyr yn effeithio ar yr awdur. Gall yr Arolygydd ddiystyru unrhyw ddeunydd a ddaw i law ar ôl i'r broses ddod i ben, hyd yn oed os yw'n codi materion newydd. Fodd bynnag, os bydd amgylchiadau eithriadol a bod yr Arolygydd yn bwriadu ystyried y deunydd hwn yn y penderfyniad a'i fod yn dod i'r casgliad ei fod yn berthnasol i'r casgliad, rydym yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), pawb a ymddangosodd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad ac unrhyw un a anfonodd tystiolaeth ysgrifenedig atom. Byddwn yn rhoi tair wythnos iddynt roi sylwadau ysgrifenedig neu i ofyn am i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad gael eu hailagor.
- 5.15 Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu y dylid ailagor y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, rydym yn anfon datganiad ysgrifenedig o'r materion i'w hystyried at bawb y gwnaethom eu hysbysu am y dystiolaeth newydd. Rydym hefyd yn gwneud trefniadau ar gyfer y gwrandawriad neu'r ymchwiliad a gafodd eu hailagor.

Argymhellion cyfreithiol

- 5.16 Mae herio gorchymyn neu sylw neu wrthwynebiad ar sail mater cyfreithiol yn hysbys fel "*sylw cyfreithiol*". Os byddwch am wneud argymhelliad cyfreithiol,

byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei gyflwyno naill ai gyda'ch datganiad achos (fel bod modd ei ddsbarthu cyn y digwyddiad) neu ei wneud yn ysgrifenedig a rhoi copïau i'r Arolygydd a phawb arall ar ddechrau'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad. Ni fydd yr Arolygydd yn rhoi dyfarniad ar argymhellion cyfreithiol, ond mae'n ymateb iddynt fel arfer yn y penderfyniad. Fodd bynnag, os yw'r argymhelliad yn amau cynnal y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn ystyried p'un ai i barhau â'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ai pheidio. Mae rhagor o gyngor ar argymhellion cyfreithiol i'w gael yn Nodyn Hawliau Tramwy Rhif 3, gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r nodyn cyngor ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advisenotes>

Sylwadau ar weithdrefn

- 5.17 Os bydd rhywun am roi sylwadau ar y ffordd y gwnaed y gorchymyn neu ar y ffordd y cafodd ei brosesu gan yr awdurdod, neu'r ffordd rydym wedi ymdrin â'r gorchymyn ers iddo ein cyrraedd, dylai siarad â'r Arolygydd ar ddechrau'r ymchwiliad. Bydd yr Arolygydd fel arfer yn gofyn i'r awdurdod gadarnhau bod yr holl weithdrefnau cyfreithiol wedi'u dilyn (Adran 9).

Cwmpas y Gwrandawriad neu'r Ymchwiliad

- 5.18 Pwrpas y gwrandawriad neu'r ymchwiliad yw clywed tystiolaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, yn unol â'r Ddeddf y gwnaed y gorchymyn oddi tani (Adran 6). Nid yw'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad yn gyfle i herio gweinyddiaeth yr awdurdod nac i argymhell dadleuon gwleidyddol ychwaith.

6 Yr hyn y mae'r Arolygydd yn ei ystyried wrth wneud penderfyniad

Bydd y Ddeddf a'r Adran y gwneir y gorchymyn oddi tanynt yn llywio'r materion y gall yr Arolygydd eu hystyried wrth bwysu a mesur penderfyniad. Isod mae arweinyfr i'r prif gwestiynau i'w hystyried ar gyfer pob math o orchymyn y mae'r llyfryn hwn yn ymdrin â hwn.

Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd)

Gorchymynion Creu a wnaed o dan adran 26

6.1 Mae adran 26 Deddf Priffyrdd 1980 yn rhoi'r pŵer i awdurdod greu llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig. Er mwyn cadarnhau gorchymyn creu, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon bod:

Angen llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig a'i bod yn hwylus eu creu gan ystyried:

- (a) i ba raddau y byddai'r llwybr neu'r ffordd yn ychwanegu at gyfleustra neu fwynhad rhan sylweddol o'r cyhoedd neu at gyfleustra pobl sy'n byw yn yr ardal leol; ac*
- (b) yr effaith y byddai creu'r llwybr neu'r ffordd yn ei chael ar hawliau pobl sydd â buddiant yn y tir, gan ystyried darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

6.2 Mae'n rhaid hefyd i'r Arolygydd ystyried unrhyw ddarpariaeth sylweddol o ran cynllun gwella hawliau tramwy a gaiff ei pharatoi gan unrhyw awdurdod priffyrdd lleol y mae ei hardal yn cynnwys tir y câi'r llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig eu creu drosto (26(3A)).

Gorchymynion Diddymu a wnaed o dan adran 118

6.3 Mae adran 118 yn rhoi'r pŵer i awdurdod ddiddymu llwyr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei bod yn hwylus atal y ffordd gan nad oes ei hangen at ddefnydd y cyhoedd. Er mwyn cadarnhau gorchymyn diddymu, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon:

Ei bod yn hwylus atal llwybr neu ffordd gan ystyried:

- (a) i ba raddau yr ymddengys y byddai'r llwybr neu'r ffordd, ar wahân i'r gorchymyn, yn debygol o gael eu defnyddio gan y cyhoedd; ac*
- (b) yr effaith y byddai diddymu'r hawl tramwy yn ei chael o ran tir a wasanaethir gan y llwybr neu'r ffordd, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal. Hefyd*
- (c) Adran 118(6), sy'n caniatáu diystyru amgylchiadau dros dro sy'n atal defnydd o'r ffordd.*

- 6.4 Mae'r Arolygydd fel arfer yn anwybyddu unrhyw rwystrau sy'n atal y ffordd ac yn ystyried i ba raddau y câi'r llwybr ei ddefnyddio'n fwy pe na bai'r rhwystrau yno. Mae'n rhaid hefyd i'r Arolygydd ystyried unrhyw ddarpariaeth sylweddol o ran cynllun gwella hawliau tramwy sy'n cael ei baratoi gan unrhyw awdurdod priffyrdd lleol y mae ei ardal yn cynnwys tir y byddai'r gorchymyn yn diddymu hawl tramwy cyhoeddus drosto.

Gorchmynion Diddymu Croesfannau Rheolaidd a wnaed o dan adran 118A

- 6.5 Cyflwynwyd pwerau arbennig i gau neu wyro llwybrau troed, ffyrdd ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi llinellau rheilffordd ar y lefel yn Neddf Priffyrdd 1980 gan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992. Mae Adran 118A yn rhoi'r pŵer i awdurdod ddiddymu llwybr troed, ffordd geffylau neu gilffordd gyfyngedig sy'n croesi llinell rheilffordd, ac eithrio drwy dwnnel neu bont. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei bod yn hwylus gwneud hynny er budd y cyhoedd sy'n eu defnyddio neu sy'n debygol o'u defnyddio. Er mwyn osgoi creu ffordd bengaead a allai annog pobl i dresmasu ar y rheilffordd, mae'n bosibl y bydd gorchymyn hefyd yn cynnig darpariaeth i ddiddymu neu wyro unrhyw rannau o lwybr sy'n arwain at y groesfan wastad. Er mwyn cadarnhau gorchymyn diddymu croesfan, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon:

Ei bod yn hwylus atal y llwybr neu'r ffordd gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn benodol:

- (a) *p'un a yw'n rhesymol ymarferol gwneud y groesfan yn ddiogel i'r cyhoedd ei defnyddio;*
- (b) *pa drefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer sicrhau, os caiff y gorchymyn ei gadarnhau, y caiff unrhyw rwystrau ac arwyddion priodol eu codi a'u cynnal a'u cadw.*
- 6.6 Gall Gweinidogion Cymru ymgynghori ag Isadran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch p'un a ddylid darparu pont neu dwnnel ar y groesfan neu'n rhesymol agos ati fel arall.

Gorchmynion diddymu arbennig a wnaed o dan Adran 118

- 6.7 Mae adran 118B yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod ddiddymu llwybr troed, ffordd geffylau neu gilffordd gyfyngedig at ddiben atal trosedd neu ddiogelwch ysgol. Cyn gwneud gorchymyn diddymu arbennig, mae'n rhaid i'r awdurdod ymgynghori ag awdurdod heddlu ar gyfer yr ardal lle y lleolir y ffordd.

Atal Trosedd – adran 118B(1)(a)

- 6.8 Gellir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon mewn perthynas â phriffyrdd mewn ardal a ddynodir gan Weinidogion Cymru yn unig at y diben. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei bod yn hwylus, at ddiben atal neu leihau trosedd a fyddai fel arall yn tarfu ar fywyd y gymuned, y dylid atal y ffordd ac y caiff yr amodau canlynol eu bodloni:

(a) *bod adeiladau sy'n gyfagos â'r ffordd neu wrth ei hymyl yn cael eu heffeithio gan lefelau uchel o drosedd; a*

(b) *bod presenoldeb y ffordd yn hwyluso comisiynu troseddau'n gyson.*

6.9 Er mwyn cadarnhau gorchymyn diddymu atal trosedd, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon bod amod (a) ac amod (b) uchod wedi'u bodloni:

(a) *ei bod yn hwylus at ddiben atal neu leihau trosedd a fyddai fel arall yn tarfu ar fywyd y gymuned, y dylid atal y ffordd;*

(b) *ei bod yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr holl amgylchiadau eraill, yn benodol:*

- *p'un ac, os felly, i ba raddau y mae'r gorchymyn yn gyson ag unrhyw strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn fel y paratowyd o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;*
- *argaeledd llwybr amgen sy'n rhesymol gyfleus, neu os nad oes unrhyw lwybr sy'n rhesymol gyfleus ar gael, p'un a fyddai'n rhesymol ymarferol gwyro'r ffordd o dan adran 119B yn hytrach na'i hatal; ac*
- *yr effaith y byddai diddymu hawl tramwy'n ei chael mewn perthynas â thir a wasanaethir gan y ffordd, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

Diogelwch Ysgol – adran 118B(1)(b)

6.10 Dim ond mewn perthynas â ffordd sy'n croesi tir a ddefnyddir at ddibenion ysgol y gellir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei bod yn hwylus atal y ffodd, at ddiben diogelu'r disgyblion neu'r staff rhag:

(i) *trosedd neu fygythiad trosedd,*

(ii) *aflonyddu,*

(iii) *ofn neu ofid sy'n deillio o weithgarwch anghyfreithlon,*

(iv) *unrhyw risg arall i'w hiechyd a'u diogelwch sy'n deillio o weithgaredd o'r fath.*

6.11 Er mwyn cadarnhau gorchymyn diddymu diogelwch ysgol, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon:

(a) *ei bod yn hwylus, at ddiben diogelu'r disgyblion neu'r staff rhag (i)-(iv) uchod, y dylid atal y ffordd;*

(b) *ei bod yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn benodol:*

- *unrhyw fesurau eraill sydd wedi'u cymryd neu y gellid fod eu cymryd i wella neu gynnal diogelwch yr ysgol;*

- *p'un a yw'n debygol y bydd y gorchymyn yn dod i rym yn arwain at welliant sylweddol o ran y diogelwch hwnnw,*
- *argaeledd llwybr amgen sy'n rhesymol gyfleus neu, os nad oes unrhyw llwybr rhesymol amgen ar gael, p'un a fyddai'n rhesymol ymarferol gwro'r ffordd o ran adran 119B yn hytrach na'i hatal; ac*
- *yr effaith y byddai diddymu'r hawl tramwy yn ei chael mewn perthynas â thir a wasanaethir gan y ffordd, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

Gorchymynion Gwro a wnaed o dan adran119

- 6.12 Mae adran 119 Deddf y Priffyrdd yn rhoi'r pŵer i awdurdod wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig er budd y perchennog, y tenant neu'r unigolyn sy'n defnyddio'r tir y mae'r ffordd yn ei groesi neu er budd y cyhoedd.
- 6.13 Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau nad yw'r ffordd amgen eisoes yn hawl tramwy cyhoeddus. Fel arall, byddai'r gorchymyn yn dileu ffordd, yn hytrach na gwro'r hen un (ond gall rhan o'r ffordd amgen ddilyn hawl tramwy sy'n bodoli eisoes).
- 6.14 Mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn sicr hefyd, oni bai bod y ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall, bod y llwybr sydd wedi'i wyro'n dod i ben yn yr un lle. Os yw'r ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall a bod y gorchymyn yn newid yn y fan lle y bydd yn dod i ben, mae'n rhaid iddi gysylltu o hyd â phwynt arall ar yr un ffordd neu ar ffordd sy'n gysylltiedig â hi, ac sydd yr un mor gyfleus â'r cyhoedd⁷.
- 6.15 Er mwyn cadarnhau gorchymyn gwro, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon:
- (a) *ei bod yn hwylus (er budd perchennog, deiliad prydles neu berchennog y tir y mae'r llwybr yn ei groesi neu er budd y cyhoedd) y dylid gwro llinell y llwybr neu'r ffordd, neu ran o'r llinell honno;*
- (b) *na fydd y llwybr neu'r ffordd yn llai cyfleus o lawer i'r cyhoedd;*
- (c) *ei bod yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr effaith:*
- *y byddai'r gwriad yn ei gael ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr neu'r ffordd gyfan;*
 - *y byddai'r gorchymyn yn dod i rym yn ei chael o ran tir arall a wasanaethir gan yr hawl tramwy presennol;*
 - *effaith y byddai unrhyw hawl tramwy cyhoeddus a grëwyd gan y Gorchymyn yn ei chael mewn perthynas â'r tir y creir yr hawl drosto ac*

⁷ Mae p'un a yw'r cysylltiad hwnnw yr un mor gyfleus i'r cyhoedd yn fater i'r Arolygydd benderfynu arno yn amodol ar brawf rhesymoldeb.

unrhyw dir gydag ef, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.

- 6.16 Er nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng adran 118(6) ac adran 119 cyn belled ag y mae rhwystrau dros dro yn y cwestiwn (paragraff 6.3 uchod), wrth ystyried o dan adran 119(6), p'un a fydd yr hawl tramwy'n llai cyfleus o lawer i'r cyhoedd ai pheidio o ganlyniad i'r gwyriad, dim ond drwy ddiystyru unrhyw amgylchiadau dros dro sy'n atal neu'n lleihau gallu'r cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr presennol y bydd modd gwneud cymhariaeth deg. Felly, ym mhob achos lle y caiff y prawf hwn ei ddefnyddio, caiff cyfleuster y llwybr presennol ei asesu pe bai'r ffordd yn ddi-rwystr a'i gynnal i safon sy'n addas ar gyfer y defnyddwyr hynny sydd â hawl i'w ddefnyddio.
- 6.17 Mae'n rhaid i'r Arolygydd ystyried unrhyw ddarpariaeth sylweddol mewn perthynas â chynllun gwella hawliau tramwy a baratoir gan unrhyw awdurdod priffyrdd lleol y mae ei ardal yn cynnwys tir y byddai'r gorchymyn yn creu neu'n diddymu hawl tramwy cyhoeddus drosto.

Gorchymynion Gwyro Croesfannau Rheilffordd a wnaed o dan adran 119A

- 6.18 Mae Adran 119A yn rhoi'r pŵer i awdurdod wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig sy'n croesi llinell rheilffordd ac eithrio drwy dwnnel neu bont. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei fod yn hwylus gwneud hynny er budd diogelwch y cyhoedd sy'n ei ddefnyddio neu sy'n debygol o'i ddefnyddio.
- 6.19 Mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn sicr, oni bai bod y ffordd bresennol yn cysylltu â hawl tramwy tebyg arall, bod y llwybr sydd wedi'i wyro'n dod i ben yn yr un lle. Os yw'r ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall a bod y gorchymyn yn newid y fan lle y mae'n dod i ben, mae'n rhaid iddi gysylltu â phwynt arall o hyd ar yr un ffordd neu ar briffordd sy'n gysylltiedig â hi.
- 6.20 Er mwyn cadarnhau gwyriad croesfan rheilffordd, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon:
- Ei bod yn hwylus gwyro'r llwybr neu'r ffordd gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn benodol:*
- (a) *p'un a yw'n rhesymol ymarferol gwneud y groesfan yn ddiogel i'r cyhoedd ei defnyddio;*
- (b) *pa drefniadau a wnaed ar gyfer sicrhau, os caiff y gorchymyn ei gadarnhau, y caiff unrhyw rwystrau ac arwyddion priodol eu codi a'u cynnal.*
- 6.21 Gall Gweinidogion Cymru ymgynghori ag Isadran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch p'un a ddylid darparu pont neu dwnnel wrth y groesfan neu'n gymharol agos ati fel mesur amgen.

Gorchymynion Gwyro Arbennig a wnaed o dan adran 119B

- 6.22 Mae Adran 119B yn rhoi'r pŵer i awdurdod wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig at ddibenion atal trosedd neu ddiogelwch yr ysgol. Cyn gwneud gorchymyn gwyro arbennig, mae'n rhaid i'r awdurdod ymgynghori â'r awdurdod heddlu ar gyfer yr ardal y lleolir y ffordd ynddi.
- 6.23 Mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn sicr, oni bai bod y ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall, bod y llwybr wedi'i wyro'n dod i ben yn yr un lle. Os yw'r ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall a bod y gorchymyn yn newid y fan lle y bydd yn dod i ben, mae'n rhaid iddi gysylltu â phwynt arall ar yr un ffordd neu ffordd sy'n gysylltiedig â hi.

Atal Trosedd – adran 119B(1)(a)

- 6.24 Dim ond mewn ardal a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw y gellir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon mewn perthynas â ffordd. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei fod yn hwylus, at ddiben atal neu leihau trosedd a fyddai fel arall yn tarfu ar fywyd y gymuned, y dylid gwyro llinell y ffordd, neu ran o'r llinell honno a bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:
- (a) bod adeiladau sy'n gyfagos â'r ffordd neu wrth ei hymyl yn cael eu heffeithio gan lefelau uchel o drosedd; a*
- (b) bod presenoldeb y ffordd yn hwyluso comisiynu troseddau'n gyson.*
- 6.25 Er mwyn cadarnhau gorchymyn gwyro trosedd, mae'n rhaid i Arolygydd fod yn fodlon bod amod (a) ac amod (b) wedi'u bodloni a bod:
- (a) ei bod yn hwylus at ddiben atal neu leihau trosedd a fyddai fel arall yn tarfu ar fywyd y gymuned, y dylid gwyro llinell y ffordd, neu ran o'r llinell honno;*
- (b) ei bod yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn benodol:*
- p'un ac, os felly, i ba raddau y mae'r gorchymyn yn gyson ag unrhyw strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn a baratowyd o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;*
 - effaith y byddai'r gorchymyn yn dod i rym yn ei chael mewn perthynas â thir a wasanaethir gan yr hawl tramwy cyhoeddus; ac*
 - effaith y byddai unrhyw hawl tramwy cyhoeddus newydd a grëwyd gan y gorchymyn yn ei chael mewn perthynas â'r tir y caiff yr hawl ei greu drosto ac unrhyw dir gydag ef, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

Diogelwch Ysgolion – adran 119B(1)(b)

- 6.26 Dim ond mewn perthynas â ffordd sy'n croesi tir a ddefnyddir at ddibenion ysgol y gellir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon ei fod yn hwylus bod llinell y ffordd, neu ran o'r llinell honno'n cael ei gwyro, at ddiben diogelu'r disgyblion neu'r staff rhag:
- (i) trosedd neu fygythiad trosedd,
 - (ii) aflonyddu,
 - (iii) ofn neu ofid sy'n deillio o weithgarwch anghyfreithlon, neu
 - (iv) unrhyw risg arall i'w hiechyd neu'u diogelwch sy'n deillio o weithgarwch o'r fath.
- 6.27 Er mwyn cadarnhau gorchymyn gwyro diogelwch ysgol, mae'n rhaid i'r Arolygydd fod yn fodlon:
- (a) *ei fod yn hwylus, at ddiben diogelu'r disgyblion neu'r staff rhag (i)-(iv) uchod, y dylid gwyro llinell y ffordd, neu ran o'r llinell honno;*
 - (b) *ei fod yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn benodol:*
 - *unrhyw fesurau eraill sydd wedi'u cymryd neu y gellid eu cymryd er mwyn gwella neu gynnal diogelwch yr ysgol;*
 - *p'un a yw'n debygol y bydd y gorchymyn yn dod i rym yn arwain at welliant sylweddol o ran y diogelwch hwnnw;*
 - *effaith y byddai'r gorchymyn yn dod i rym yn ei chael mewn perthynas â thir a wasanaethir gan yr hawl tramwy cyhoeddus presennol; ac*
 - *effaith y byddai unrhyw hawl tramwy cyhoeddus newydd a grëwyd gan y gorchymyn yn ei chael mewn perthynas â'r tir y caiff yr hawl ei greu drosto ac unrhyw dir gydag ef, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

Gorchymyn Gwyro SoDdGA a wnaed o dan Adran 119D

- 6.28 Ar ôl derbyn cais gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mae adran 119D yn rhoi'r pŵer i awdurdod wyro ffordd sydd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn ffurfio rhan ohoni, neu sy'n agos ati neu sy'n cyffinio â hi at ddiben ei warchod. Wrth wneud y gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon:
- (a) *bod y cyhoedd yn defnyddio'r ffordd yn achosi niwed sylweddol, neu fod defnyddio'r ffordd yn barhaus yn debygol o achosi niwed sylweddol i fflora, ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol gan fod y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig;*

(b) *ei fod yn hwylus y dylid gwyro llinell y ffordd, neu ran y llinell honno at ddiben atal niwed o'r fath.*

6.29 Mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn sicr, oni bai bod y ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall, fod y llwybr wedi'i wyro'n dod i ben yn yr un lle. Os nad yw'r ffordd bresennol yn cysylltu â ffordd arall a bod y gorchymyn yn newid y fan lle mae'n dod i ben, mae'n rhaid iddi gysylltu o hyd â phwynt arall ar yr un ffordd neu ffordd sy'n gysylltiedig â hi.

6.30 Er mwyn cadarnhau gorchymyn gwyro SoDdGA, mae'n rhaid i'r Arolygydd fod yn fodlon bod amod (a) ac amod (b) uchod yn fodlon a'i fod:

Yn hwylus cadarnhau'r gorchymyn gan ystyried yr effaith:

(a) *y byddai'r gwyrriad yn ei chael ar fwynhad y cyhoedd o'r hawl tramwy cyfan;*

(b) *y byddai'r gorchymyn yn dod i rym ar ei chael mewn perthynas â thir arall a wasanaethir gan yr hawl tramwy cyhoeddus;*

(c) *y byddai unrhyw hawl tramwy cyhoeddus newydd a grëwyd gan y gorchymyn yn ei chael mewn perthynas â'r tir y caiff yr hawl ei greu drosto ac unrhyw dir gydag ef, gan ystyried y darpariaethau mewn perthynas ag iawndal.*

Gorchmynion Deddf Priffyrdd Cydredol

6.31 Gellir ystyried gorchmynion creu a gwyro ynghyd â gorchmynion diddymu. Gall yr arolygydd ystyried i ba raddau y byddai gorchmynion creu neu wyro a wnaed mewn cydweithrediad â gorchymyn diddymu, pe caent eu cadarnhau, yn cynnig ffordd amgen i'r hyn y bwriedir ei chau. Os na all yr Arolygydd gadarnhau'r gorchymyn diddymu ar ôl ystyried y dewis arall, ni fydd yn cadarnhau'r gorchmynion creu neu wyro yn gyffredinol.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a wnaed o dan adran 53

6.32 Mae Adran 53 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu eu mapiau a'u datganiadau diffiniol yn barhaus ac i addasu'r map a'r datganiad i:

- gofnodi ffyrdd a ddylai gael eu dangos ond nad ydynt wedi'u dangos;
- diwygio statws ffyrdd a gofnodwyd ar y map yn anghywir;
- dileu ffyrdd na ddylid eu cofnodi ar y map;
- dileu neu ddiwygio unrhyw fanylion eraill sy'n anghywir.

- 6.33 Wrth benderfynu ar orchymyn addasu map diffiniol, gall arolygydd ystyried yr hawliau sy'n bodoli yn unig. Ni all yr Arolygydd ystyried addasrwydd y ffordd at ddefnydd y cyhoedd neu unrhyw effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â chadarnhau gorchymyn. Lle y bydd sylwadau neu wrthwynebiadau yn ein cyrraedd yr ymddengys nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw faterion y gall yr Arolygydd eu hystyried, byddwn yn ysgrifennu at y gwrthwynebwyr hynny er mwyn rhoi gwybod iddynt. Rydym yn rhoi'r cyfle iddynt ddiwygio eu sylw neu eu gwrthwynebiad fel nad yw'n cynnwys materion o'r fath, i ddweud pam mae'n berthnasol yn eu tyb nhw, neu fel arall, i'w gwahodd i dynnu eu sylw neu'u gwrthwynebiad yn ôl⁸.

Gorchymynion i ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus a wnaed o dan adran 54

- 6.34 Mae adran 47 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mewn grym erbyn hyn a chaiff awdurdodau lleol eu rhyddhau o'u dyletswydd o dan adran 54 Deddf 1981 i ailddosbarthu ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus. Caiff pob ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus ei dynodi fel cilffyrdd cyfyngedig erbyn hyn. Mae'n rhaid penderfynu ar unrhyw geisiadau neu orchymynion ar gyfer ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus sy'n parhau i fod heb eu pennu.

Y dystiolaeth y gellir ei chyflwyno

Dogfennau

- 6.35 Caiff llawer o fathau gwahanol o fapiau, cynlluniau a dogfennau eraill eu cyflwyno fel tystiolaeth i brofi bod hawliau tramwy cyhoeddus yn bodoli neu i brofi nad ydynt yn bodoli, neu fod angen addasu'r map a'r datganiad diffiniol mewn rhyw ffordd arall. Mae pa mor berthnasol yw dogfen yn dibynnu ar ba fath o ddogfen sydd dan sylw, pam y cafodd ei llunio a pha wybodaeth y mae'n ei chynnwys am y ffordd a ddangosir yn y gorchymyn. Nid yw'n anarferol i bob parti bledio bod ystyr gwahanol i'r un ddogfen.
- 6.36 Os byddwch yn cyflwyno dogfen fel tystiolaeth, dylech hefyd roi esboniad er mwyn dangos i'r arolygydd ei hystyr a pherthnasedd i'r penderfyniad. Dylai'r ddogfen fod ar ffurf sydd mor agos â'r copi gwreiddiol â phosibl. Er enghraifft, ni fyddai i lungopi du a gwyn o fap codau lliw fawr o werth.
- 6.37 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn Lloegr wedi llunio *Definitive Map Orders: Consistency Guidelines*, sy'n cynnwys deunydd cyfeirio er mwyn helpu arolygwyr i benderfynu ar orchymynion a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/consistency_guide.pdf

⁸ Gosodwyd y ddyletswydd i roi gwybod i wrthwynebwyr nad yw eu gwrthwynebiadau'n berthnasol ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn nyfarniad yr Uchel Lys *Lasham Parish Meeting v Hampshire County Council* (1992).

Tystiolaeth defnyddwyr

6.38 Tystiolaeth o ddefnydd gwirioneddol y ffordd yw hon, sy'n cefnogi'r honiad bod perchennog y tir wedi caniatáu i'r hawl tramwy cyhoeddus ymsefydlu dros ei dir.

6.39 Gall tystiolaeth defnyddwyr fod ar ffurf:

- datganiadau ysgrifenedig neu ddatganiadau ar lafar gan dystion; neu
- ddatganiadau cyfeithiol gan ddefnyddwyr am sut a phryd y gwnaethant ddefnyddio'r ffordd.

Lle bo'r gorchymyn yn cael ei ystyried mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, gall tystiolaeth defnyddwyr a roddir ar lafar fod yn ddefnyddiol iawn i'r arolygydd. Gall tystion siarad am eu tystiolaeth ac ateb cwestiynau (neu gael eu croesholi). Gallai fod i dystiolaeth nad yw wedi'i chlywed a'i holi fwy i bwys na thystiolaeth lle na wnaed hynny.

6.40 Mae'r arolygydd yn ystyried yr holl dystiolaeth o blaid ac yn erbyn y gorchymyn cyn gwneud penderfyniad. Mae arolygwyr yn brofiadol o ran ymdrin â thystiolaeth defnyddwyr ac yn deall bod atgofion pobl am ddigwyddiadau yn y gorffennol yn debygol o fod yn wahanol. Gan ei bod yn dibynnu ar atgofion pobl, gall tystiolaeth defnyddwyr wrthdaro â thystiolaeth arall sy'n cael ei chyflwyno am ddefnydd neu statws y ffordd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Canllawiau Cysondeb ar ein gwefan yn: http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/consistency_guide.pdf

Gorchymynion a wnaed ar ôl apêl o dan baragraff 4(1) Atodlen 14

6.41 Gall unrhyw un wneud cais i'r awdurdod perthnasol am wneud Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol. Os bydd yr awdurdod yn gwrthod gwneud gorchymyn, gall yr ymgeisydd apelio i Weinidogion Cymru (drwy'r Arolygiaeth Gynllunio) i gyfarwyddo'r awdurdod i wneud un. Yna gall y gorchymyn ddod gerbron yr Arolygiaeth am benderfyniad gan fod sylwadau a gwrthwynebiadau iddo wedi codi. Ni all y ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r awdurdod i wneud y gorchymyn lywio penderfyniad yr Arolygydd mewn unrhyw ffordd: ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, gall yr Arolygydd ei chadarnhau, ei chadarnhau gydag addasiadau neu beidio â'i chyfiawnhau.

6.42 Os na fydd awdurdod yn llwyddo i benderfynu ar gais o fewn 12 mis, gall yr ymgeisydd ofyn am i Weinidogion Cymru (yr Arolygiaeth Gynllunio i bob pwrpas) gyfarwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais o fewn cyfnod penodol o amser.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Gorchymynion Atal a Gwyo a wnaed o dan adran 257

6.43 Mae adran 257 yn rhoi'r pŵer i awdurdod wyro neu ddiddymu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig os yw'n fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn caniatáu i ddatblygu fynd rhagddo:

(a) *yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III (o'r Ddeddf); neu*

(b) *gan adran o'r llywodraeth.*

Lle nad yw'r awdurdod neu'r unigolyn sydd wedi cael caniatâd cynllunio sydd ei angen i wyro'r hawl tramwy yn berchen ar dir, mae'n rhaid bod perchennog y tir ar gyfer y llwybr newydd fod wedi cael ei roi.

Er mwyn cadarnhau Gorchymyn Atal neu Wyro, mae'n rhaid i arolygydd fod yn fodlon bod maen prawf (a) a (b) uchod wedi'u bodloni. Nid oes angen i'r arolygydd ystyried yr angen am y datblygiad.

6.44 Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried effaith y gorchymyn ar y rhai sy'n gymwys i fanteisio ar yr hawliau a gâi eu diddymu⁹.

Gorchymynion Diddymu a wnaed o dan adran 258

6.45 Mae adran 258 yn rhoi'r pŵer i awdurdod atal llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig ar ei dir ei hun os yw'n bwriadu datblygu'r tir.

6.46 Er mwyn cadarnhau Gorchymyn Diddymu, mae'n rhaid i arolygydd fod yn fodlon:

(a) *bod hawl tramwy amgen wedi'i ddarparu neu y caiff ei ddarparu; neu*

(b) *nad oes angen darparu hawl tramwy amgen.*

Gorchymynion Atal a wnaed o dan adran 261

6.47 Mae adran 261 yn rhoi'r pŵer i awdurdod wneud gorchymynion o dan adran 257 i atal neu wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig am gyfnod o amser fel bod modd cloddio mwynau o'r arwyneb. Mae'n rhaid i'r arolygydd fod yn fodlon:

(a) *bod angen atal y ffordd er mwyn caniatáu cloddio mwynau drwy waith ar yr arwyneb;*

(b) *bod modd adfer y ffordd yn ddiweddarach i gyflwr nad yw'n llai cyfleus i'r cyhoedd.*

⁹ Cylchlythyr Defra 1/09 (fersiwn 2) paragraff 7.15.

7 Y Penderfyniad (gan gynnwys y broses addasiadau)

7.1 Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad a chopi o fap y gorchymyn i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), at bawb a siaradodd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad neu a wnaeth sylwadau ysgrifenedig, unigolion perthnasol eraill ac unrhyw un arall a ofynnodd am gopi.

7.2 Yn ei benderfyniad, bydd yr arolygydd yn:

- disgrifio'r ffordd/ffyrdd yn y gorchymyn;
- disgrifio'r achosion a wnaed gan bartïon gwahanol a'r pwyntiau a godwyd;
- amlinellu'r casgliadau a'r penderfyniad.

Y mathau o benderfyniad

7.3 Gall penderfyniad:

- gadarnhau'r gorchymyn; neu
- gadarnhau'r gorchymyn gydag addasiadau nad oes angen eu hysbysebu (megis cywiro gwall sillafu neu ychwanegu cyfeirnod grid); neu
- gadarnhau'r gorchymyn gydag addasiadau **nad** oes angen eu hysbysebu, neu
- beidio â chadarnhau'r gorchymyn.

7.4 Mewn achosion lle nad oes angen hysbysebu addasiadau'r arolygydd, byddwn yn ysgrifennu at bawb a gafodd wybod am y gwrandawriad neu'r ymchwiliad ac at bawb arall a ymddangosodd neu sydd wedi rhoi sylwadau ysgrifenedig i esbonio pam mae'n bwriadu addasu'r gorchymyn.

7.5 Y mathau o addasu y mae angen eu hysbysebu yw;

- y rhai sy'n effeithio ar y tir nad yw'n destun y gorchymyn gwreiddiol. Er enghraifft; symud llinell y ffordd, ychwanegu lled at orchymyn, lledu ffordd neu gynyddu ei hyd.
- y rhai sy'n newid statws disgrifiedig y ffordd. Er enghraifft, llwybr troed neu lwybr ceffylau;
- y rhai sy'n dileu'r ffordd gyfan neu ran ohoni;
- y rhai sy'n dangos ffordd na ddangoswyd gynt neu'r rhai nad ydynt yn dangos y rhai a ddangoswyd gynt.

7.6 Gellir rhoi sylwadau a gwrthwynebiadau i addasiadau sydd wedi'u hysbysebu yn yr un ffordd â'r gorchymyn gwreiddiol. Rydym yn trefnu i'r Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cael ei

ddosbarthu yn yr ardal leol. Mae'r hysbysiad yn esbonio sut a phryd mae modd rhoi sylwadau neu wrthwynebiadau i'r addasiad arfaethedig.

- 7.7 Os na ddaw unrhyw wrthwynebiadau i law o ran yr addasiadau arfaethedig, bydd yr arolygydd yn cadarnhau'r gorchymyn gyda'r addasiadau a hysbysebwyd.

Sut rydym yn ymdrin ag unrhyw sylwadau/gwrthwynebiadau sy'n ein cyrraedd¹⁰

Sylwadau/gwrthwynebiadau i'r addasiadau arfaethedig yn unig

- 7.8 Os bydd sylwadau neu wrthwynebiadau i'r addasiadau arfaethedig yn ein cyrraedd, gallwn drefnu gwrandawriad, ymchwiliad neu gyfnewid sylwadau ysgrifenedig. Bydd yr arolygydd ond yn gallu ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â'u haddasiadau arfaethedig. Ni all yr arolygydd ystyried tystiolaeth nad yw'n ymwneud â'r addasiadau arfaethedig (paragraffau 7.14 a 8.4).
- 7.9 Os bydd unrhyw un mewn gwrandawriad neu ymchwiliad a drefnir i ymdrin ag addasiadau a hysbysir yn gofyn am gael rhoi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r rhan o'r gorchymyn sydd heb ei haddasu, bydd yr Arolygydd yn gofyn am iddynt ei chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Arolygiaeth (o fewn cyfnod penodol o amser). Ar ôl i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddod i ben, bydd yr arolygydd yn darllen y sylw ac, os bydd o'r farn ei fod yn codi cwestiynau sy'n debygol o effeithio ar y penderfyniad ac o'r farn ei fod yn codi cwestiynau sy'n debygol o effeithio ar y penderfyniad, gallai fod angen ailagor y gwrandawriad neu'r ymchwiliad gwreiddiol (os cafodd un ei gynnal). Fodd bynnag, os bydd yr arolygydd o'r farn y gellid mynd i'r afael â'r mater ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, byddwn yn cynnig y weithdrefn hon i bawb sy'n gysylltiedig.

Sylwadau/gwrthwynebiadau i'r rhan o'r Gorchymyn sydd heb ei haddasu yn unig

- 7.10 Pan fyddwn yn hysbysebu addasiadau arfaethedig, os bydd sylwadau a gwrthwynebiadau yn ein cyrraedd sy'n ymwneud â'r rhannau hynny o'r gorchymyn yn unig na fwriedir eu haddasu, mewn achosion eithriadol, gallwn benderfynu ailagor y gwrandawriad neu'r ymchwiliad gwreiddiol neu'n gwahodd sylwadau ysgrifenedig. Lle y cynhelir gwrandawriad neu ymchwiliad, bydd yr arolygydd ond yn gallu ystyried tystiolaeth **newydd** sy'n ymwneud â'r rhan o'r gorchymyn sydd heb ei haddasu. Ni all yr arolygydd ailystyried tystiolaeth sydd eisoes wedi'i chlywed neu ei chyflwyno, ac ni all ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r addasiadau arfaethedig ychwaith (gweler 7.15 isod).
- 7.11 Bydd yr arolygydd yn dilyn gweithdrefn debyg i'r hyn a amlinellir ym mharagraff 7.9 uchod os bydd unrhyw un yn y gwrandawriad neu'r

¹⁰Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â sylwadau a gwrthwynebiadau ar ôl hysbysebu addasiadau arfaethedig wedi'u seilio ar yr egwyddorion a geir yn nyfarniad yr Uchel Lys sef, *Marriott v Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions* (2000). Mae rhagor o wybodaeth ar y dyfarniad hwn i'w chael yn Nodyn Cyngor ar Hawliau Tramwy 10 sydd ar gael yn:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advicenotes>

ymchwiliad yn gofyn am roi tystiolaeth yn ymwneud â'r rhan o'r gorchymyn sydd wedi'i haddasu.

Sylwadau/gwrthwynebiadau i rannau'r gorchymyn sydd wedi'u haddasu ac sydd heb eu haddasu

- 7.12 Weithiau, mae sylwadau a gwrthwynebiadau yn ein cyrraedd sy'n ymwneud â'r addasiadau arfaethedig a'r rhan o'r gorchymyn sydd heb ei haddasu. Yn yr amgylchiadau hyn ac os yw'r sylwadau neu'r gwrthwynebiadau'n codi tystiolaeth a allai effeithio ar benderfyniad yr arolygydd, gallwn drefnu gwrandawriad, ymchwiliad neu wahodd sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r dystiolaeth ar ddwy ran y gorchymyn. Fodd bynnag, o ran y rhan o'r gorchymyn sydd heb ei haddasu, ni all yr arolygydd ailystyried tystiolaeth sydd eisoes wedi'i chlywed neu'i chyflwyno. Mewn geiriau eraill, mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod yn **newydd** (paragraff 7.17).
- 7.13 Ar ôl ystyried y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau pellach hyn, byddwn yn cyhoeddi penderfyniad. Mae rhagor o arweiniad i'w weld yn ein Nodyn Cyngor ar Hawliau Tramwy 10, ar ein gwefan yn: <http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advice/notes>

Y weithdrefn ar gyfer ail Wrandawriadau ac Ymchwiliadau a rhai dilynol ar ôl addasiadau

- 7.14 Bydd y weithdrefn ar gyfer ail wrandawriad ac ymchwiliad neu rai dilynol yr un peth â'r weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad neu'r ymchwiliad cyntaf (Adran 3 a 4). Yr unig wahaniaeth yw oni fyddwn yn penderfynu fel arall¹¹, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol sicrhau bod ein datganiadau achos yn ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl dyddiad ein hysbysiad**. Byddwn yn ysgrifennu atoch gyda'r amserlen.

Y weithdrefn ar gyfer Gwrandawriadau ac Ymchwiliadau a ailagorir ar ôl addasiadau

- 7.15 Mae'r weithdrefn ar gyfer gwrandawriad neu ymchwiliad a ailagorir yr un peth â'r weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad neu'r ymchwiliad gwreiddiol (Adranau 3 a 4). Yr unig wahaniaeth yw, oni fyddwn yn penderfynu fel arall, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol sicrhau bod eu datganiadau yn ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl dyddiad ein hysbysiad**. Yn ogystal, bydd yr arolygydd yn anfon datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r materion i'w trafod a'r materion lle y caiff rhagor o dystiolaeth ei gwahodd (h.y. yr hyn y dylid ymdrin ag e yn y datganiadau achos) i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unrhyw un arall a ymddangosodd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad gwreiddiol ac unrhyw un a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y datganiad ysgrifenedig hwn ei gyhoeddi pan fyddwn yn rhoi gwybod i'r

¹¹ Mae paragraff 28 y Rheolau yn datgan y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu mwy o amser ar gyfer cymryd unrhyw gamau.

partïon am y weithdrefn (h.y. sylwadau ysgrifenedig, y gwrandawriad, yr ymchwiliad) i'w dilyn.

- 7.16 Os ydych yn fodlon ar gynigion yr arolygydd ac nad ydych am gyflwyno unrhyw dystiolaeth bellach, mae'n bosibl y byddwch yn dal am ddod i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad o'u haildrefnu. Nid yw cynigion yr arolygydd yn derfynol hyd nes bod penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Gellir cyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad sy'n arwain at yr arolygydd yn dod i gasgliad gwahanol i'r hyn sydd yn ei benderfyniad blaenorol.

Y weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau i'r addasiadau arfaethedig a'r rhan o'r Gorchymyn heb ei haddasu

- 7.17 Bydd y weithdrefn yr un peth ar gyfer ail wrandawiadau ac ymchwiliadau a rhai dilynol â'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad cyntaf (dylech gyfeirio at adran 3 ac adran 4 y llyfryn hwn). Yr unig wahaniaeth yw, oni fyddwn yn penderfynu fel arall, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol sicrhau bod eu datganiadau yn ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl dyddiad ein hysbysiad**. O ran y rhan o'r gorchymyn sydd heb ei haddasu, bydd yr arolygydd hefyd yn anfon datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r materion i'w trafod a'r materion lle y caiff tystiolaeth bellach ei gwahodd (h.y. yr hyn y dylid ymdrin ag ef yn y datganiadau achos) i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unrhyw un arall a ymddangosodd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad gwreiddiol ac unrhyw un a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y datganiad ysgrifenedig hwn ei gyhoeddi pan fyddwn yn hysbysu'r partïon o'r weithdrefn (h.y. gwrandawriad, ymchwiliad, sylwadau ysgrifenedig) i'w dilyn.
- 7.18 Yn unol â pharagraff 7.16, os ydych yn fodlon ar gynigion yr arolygydd ac nad ydych am gyflwyno unrhyw dystiolaeth bellach, mae'n bosibl y byddwch yn dal yn awyddus i ddod i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad i'r addasiadau arfaethedig a'r rhan o'r gorchymyn sydd heb ei addasu. Nid yw cynigion yr arolygydd yn derfynol hyd nes bod penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Gellir cyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad sy'n arwain at yr arolygydd yn dod i gasgliad gwahanol i'r hyn a geir yn ei benderfyniad blaenorol.

Y weithdrefn ar gyfer Sylwadau Ysgrifenedig ar ôl addasiadau

- 7.19 Bydd y weithdrefn yn cyfateb i'r hyn a amlinellir yn adran 2 y llyfryn hwn. Yr unig wahaniaeth yw, oni fyddwn yn penderfynu fel arall, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sicrhau bod eu datganiadau yn ein cyrraedd **heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos ar ôl dyddiad ein hysbysiad**. Byddwn yn ysgrifennu atoch gyda'r amserlen.
- 7.20 Gan y bydd yr arolygydd eisoes wedi ymweld â'r safle, mae'n annhebygol y bydd angen iddo wneud hynny eto.

8 Costau

- 8.1 Amcan y weithdrefn dyfarnu costau yw atgyfnerthu'r rhwymedigaethau ar bob parti sy'n gysylltiedig â gorchymyn sydd wedi'u codio yn y weithdrefn Rheolau ar gyfer Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau ac sydd wedi'u hesbonio yn y llyfryn hwn.
- 8.2 Os gwneir penderfyniad yn dilyn y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, nid oes unrhyw bŵer i wneud y rhai sy'n rhoi sylwadau yn gyfrifol am rai o gostau'r parti arall neu bob un ohonynt.
- 8.3 Mae pob parti sy'n gysylltiedig â gwrandawriad neu ymchwiliad (awdurdodau lleol, ymgeiswyr (os yw'n berthnasol), unigolion perthnasol ac unrhyw un arall yn talu eu treuliau eu hunain fel arfer, waeth beth fo'r penderfyniad ar y gorchymyn. Ond os penderfynir ar y gorchymyn ar ffurf gwrandawriad neu ymchwiliad, gall unrhyw un wneud cais i ddyfarnu costau yn erbyn parti arall. Er mwyn ennill costau, mae angen i chi ddangos eich bod wedi mynd i gostau diangen neu gostau gwastraff gan fod parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae'n rhaid i'r costau fod yn fesuradwy ac mae'n rhaid eu bod wedi deillio o broses y gwrandawriad neu'r ymchwiliad.
- 8.4 Gallai fod angen i unrhyw barti dalu costau pe gellid fod wedi osgoi gwrandawriad neu ymchwiliad yn rhesymol neu os oes oedi afresymol neu os caiff ei ymestyn. Er enghraifft, gallai'r awdurdod lleol fod mewn perygl os bydd arolygydd yn rhoi terfyn ar wrandawriad neu ymchwiliad gan ei fod o'r farn bod y gorchymyn yn ddiffygiol. Gallai unrhyw un na fydd yn cydymffurfio â'r amserlenni a amlinellir yn y rheolau (oni bai bod rheswm da pam na allai wneud hyn) fod mewn perygl os bydd yn peri angen gohirio gwrandawriad neu ymchwiliad, neu i bara'n hwy nag y byddai wedi gwneud pe bai wedi cydymffurfio â'r amserlenni a thrwy wneud hynny, mae'n achosi i eraill fynd i gostau diangen neu wastraff ar yr un pryd.
- 8.5 Nid oes rhaid i ymgeiswyr ac unigolion perthnasol ddod i wrandawriad neu ymchwiliad. Mae'n bosibl y byddant yn penderfynu dibynnu ar eu tystiolaeth ysgrifenedig, ond os byddant yn gwneud hynny, dylent roi gwybod i ni mewn da bryd. Ond os bydd ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolyn perthnasol yn manteisio ar ei hawl i gael ei glywed ac yna'n peidio ag ymddangos neu gael cynrychiolaeth heb reswm da, mae mewn perygl o dderbyn dyfarniad costau yn ei erbyn am ymddygiad afresymol. Yn yr un modd, mae unigolyn sydd wedi gwneud gwrthwynebiad afresymol ac sy'n mynnu'n afresymol ei fod yn cael ei glywed mewn gwrandawriad neu ymchwiliad mewn perygl o gael dyfarniad costau yn ei erbyn. (Os credwn fod eich sylw neu'ch gwrthwynebiad yn amherthnasol, rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn rhoi'r cyfle i chi ei dynnu'n ôl neu ei ddiwygio.) Mae risg o ddyfarnu costau hefyd pe bai angen i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei ganslo o ganlyniad i dynnu gwrthwynebiad yn ôl yn hwyr yn y broses.

Gwneud cais am gostau

- 8.6 Nid oes unrhyw ffurflen gais. Os credwch fod parti wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi achosi i chi fynd i gostau diangen a'ch bod am wneud cais i gael dyfarnu'r costau hyn, **dylech roi gwybod i'r arolygydd cyn iddo**

ddod â'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad i ben. Gallwch gynghori'r parti arall ar unrhyw bryd cyn i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad ddod i ben eich bod yn bwriadu gwneud cais am gostau a pham. **Ond dylech wneud eich cais drwy'r arolygydd.** Bydd yr arolygydd yn gofyn am i chi esbonio pam y credwch fod y parti wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi achosi i chi fynd i gostau diangen. Bydd yr arolygydd yn gwrando ar eich achos a bydd yn gwahodd y parti rydych wedi'i enwi i ymateb. Os nad yw'r unigolyn hwnnw yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad mwyach, byddwn yn ei wahodd i ysgrifennu atom ar ôl i'r broses ddod i ben.

- 8.7 Mae'n ddefnyddiol iawn ac yn wirioneddol lesol os gallwch roi gwybod i'r parti sy'n gwrthwynebu am y posibilrwydd eich bod yn bwriadu gwneud cais am gostau a'r rhesymau drosto cyn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad. Felly hefyd, meddu ar ddatganiad ysgrifenedig yn barod i'w roi i'r arolygydd ar bwynt priodol yn y broses yn amlinellu'r sail dros y cais am gostau, gan gyfeirio at rannau perthnasol y Cylchlythyrau. Ar ôl cael ei hysbysu'n flaenorol o'r posibilrwydd o wneud cais am gostau, yna bydd y parti sy'n gwrthwynebu wedi paratoi'n briodol i roi ei ymateb – unwaith eto, yn ysgrifenedig yn ddelfrydol. Fel hyn, gellir arbed amser y gwrandawriad neu'r ymchwiliad drwy osgoi'r angen posibl i ohirio wrth baratoi ymateb.
- 8.8 Os byddwch yn gwneud cais am gostau, nid oes rhaid i chi roi tystiolaeth i gefnogi'r swm dan sylw. Nid yw'r arolygydd yn pennu'r swm, dim ond maint unrhyw ddyfarniad yn gyffredinol (os caiff ei roi). Rydych ond angen dangos eich bod wedi mynd i gostau mesuradwy o ganlyniad i ymddygiad afresymol y parti arall.
- 8.9 Ar ôl i'r broses ddod i ben, bydd yr arolygydd yn penderfynu ar y cais.
- 8.10 Dim ond pan fydd yr arolygydd wedi rhoi ei benderfyniad terfynol ar y gorchymyn y caiff penderfyniadau ar gostau eu rhoi. Os bydd yr arolygydd yn cynnig addasiadau i orchymyn y mae angen eu hysbysebu, bydd oedi o ran penderfyniad ar gais am gostau.

Ceisiadau am gostau ar ôl i'r Gwrandawriad neu'r Ymchwiliad ddod i ben

- 8.11 Rydym yn derbyn ceisiadau am gostau ar ôl i wrandawriad neu ymchwiliad ddod i ben dim ond os gallwch ddangos bod gennych reswm da dros beidio â gwneud cais cyn i'r broses ddod i ben. Mewn amgylchiadau eithriadol, os caiff eich cais ei dderbyn, byddwn yn dweud wrth y bobl eraill sy'n gysylltiedig ac yn trefnu iddynt roi sylwadau ysgrifenedig cyn ein bod yn gwneud penderfyniad.

Gorchymynion a allai gynnwys iawndal

- 8.12 Gall unrhyw un sy'n gallu dangos bod gwerth ei fuddiant mewn tir wedi'i ddibrisio neu ei fod wedi'i andwyo gan fod Gorchymyn Creu, Diddymu neu Wyro Deddf Priffyrdd 1980 wedi tarfu ar ei fwynhad o'i dir, hawlio iawndal gan yr awdurdod lleol a wnaeth y gorchymyn. Gellir talu iawndal dim ond lle bo modd dangos colled. Os tybiwch eich bod chi'n unigolyn o'r fath, dylech ysgrifennu at yr awdurdod lleol. Nid yw'r Arolygiaeth yn ymdrin â cheisiadau am iawndal.

- 8.13 Os ydych chi'n un o'r unigolion hyn a'ch bod yn rhoi sylwadau neu wrthwynebiadau i orchymyn lle y byddai iawndal am golli hawliau neu fuddiant yn daladwy ond bod y gorchymyn heb ei gadarnhau, caiff y costau rydych wedi mynd iddynt wrth wneud eich sylwadau neu'ch gwrthwynebiadau eu talu gan yr awdurdod lleol fel arfer. Byddwn yn ysgrifennu atoch os yw hyn yn wir ac yn eich gwahodd i wneud cais am gostau, ond nid yw dyfarnu costau yn yr achosion hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol wedi ymddwyn yn afresymol.
- 8.14 Mae gwybodaeth am gostau i'w chael yng Nghylchlythyrau 23/93 a 5/93 y Swyddfa Gymreig. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan:
www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/guidance/costs

9 Cwynion

Rhoi gwybod i ni am gwynion

- 9.1 Os bydd gennych gwyn am y ffordd yr ymdrinnir â'r gorchymyn neu am y ffordd yr ymdriniwyd â hi, naill ai gan yr Arolygydd neu gan ein Swyddog Achos, dylech gysylltu â'r Swyddog Cwynion yn:

Y Swyddog Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3889
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

- 9.2 Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn heb ragfarn a gallwch ddisgwyl ymateb o fewn tair wythnos fel arfer. Os yw gwall wedi'i wneud, byddwn yn ei esbonio ac yn ymddiheuro, ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni newid y penderfyniad mewn unrhyw ffordd.

- 9.3 Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gweithdrefnau cwynion ar ein gwefan yn:

http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/complaints_leaflet.pdf

Yr Uchel Lys

- 9.4 Wedi i benderfyniad gorchymyn gael ei gyhoeddi, nid oes gennym unrhyw bŵer i'w ddiwygio neu ei newid. Yr unig ffordd o adolygu penderfyniad yw yn sgil her lwyddiannus neu adolygiad barnwrol. Er mwyn bod yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i chi ddangos bod yr arolygydd wedi camddehongli'r gyfraith neu nad oedd wedi bodloni rhai meini prawf perthnasol. Os bydd y Llys o'r farn bod unrhyw wallau o ran ffaith neu farn yn ddigon sylweddol i ragfarnu buddiannau parti'n sylweddol, bydd naill ai'n dileu'r penderfyniad ac yn dychwelyd yr achos atom i benderfynu arno eto neu bydd yn dileu'r gorchymyn. Dylech wneud cais a'i anfon at:

Y Llys Gweinyddol
Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd
2 Stryd y Parc
Caerdydd
CF10 1ET

Ffôn: 029 2037 6400
Gwefan: www.courtservice.gov.uk

- 9.5 **Os mai cadarnhau'r gorchymyn oedd y penderfyniad**, mae'n rhaid i chi wneud cais i herio'r penderfyniad yn yr Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r

dyddiad y bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi rhybudd am y penderfyniad arno.

9.6 **Os mai peidio â chadarnhau'r gorchymyn oedd y penderfyniad,** mae'n rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys am Adolygiad Barnwrol yn brydlon ac yn sicr, heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

9.7 Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i chi ddangos:

- Fod yr arolygydd wedi camddefnyddio ei bwerau; neu
- Nad yw meini prawf sy'n berthnasol i'r math o orchymyn wedi'u bodloni a bod hyn wedi andwyo eich buddiannau.

9.8 Os byddwch am fynd ar drywydd hyn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried gofyn am gyngor gan gyfreithiwr neu gangen Cyngor ar Bopeth.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9.9 Os tybiwch eich bod wedi'ch trin yn annheg gan nad ydym ni neu'r arolygydd wedi gwneud ein gwaith yn briodol, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i amau rhinweddau gorchymyn neu i newid y penderfyniad. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydym yn ymdrin â gorchymynion ac yn eu prosesu yn unig. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio fel arfer oni bai eich bod wedi cwyno i ni yn gyntaf. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd Yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203 (codir tâl am bob galwad ar y gyfradd leol)
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

9.10 Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am herio penderfyniad yn yr Uchel Lys ar ein gwefan yn:

http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/high_court.pdf

Sylwer o ran cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Atodiadau a ganlyn y dylid darllen Gweinidogion Cymru mewn achosion sy'n ymwneud â Chymru ac sy'n dilyn ysbryd Rheolau Lloegr.

ATODIAD A

A Rheolau Hawliau Tramwy (Y Weithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau) (Lloegr) 2007

Dolen i'r wefan am reolau:

<http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20072008.htm#30>

ATODIAD B

B Y Weithdrefn ar gyfer Sylwadau Ysgrifenedig

HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

GORCHMYNION I'R YSGRIFENNYDD GWLADOL BENDERFYNU ARNYNT

Y GWEITHDREFNAU AR GYFER SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Cynnwys

Dehongli

Rhoi'r weithdrefn hon ar waith

Rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol ei roi

Cyflwyno datganiadau achos

Rhoi sylwadau ar ddatganiadau achos

Darparu rhagor o wybodaeth

Y weithdrefn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau – penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Y weithdrefn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau – penderfyniadau a drosglwyddwyd

Rhoi gwybod am benderfyniad – penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Rhoi gwybod am benderfyniad – penderfyniadau a drosglwyddwyd

Archwiliadau Safle

Rhagor o amser

Archwilio a chopio dogfennau

Hysbysiadau

Defnyddio cyfathrebu electronig

1. Dehongli

- 1.1 Yn y gweithdrefnau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall: mae "Deddf 1980" yn golygu Deddf Priffyrdd 1980; mae "Deddf 1981" yn golygu Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981; mae "Deddf 1990" yn golygu Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; mae gan "ymgeisydd" yr un ystyr ag a roddir yng ngweithdrefn 3.4(b); mae'r "awdurdod" yn golygu'r awdurdod a wnaed y gorchymyn dan sylw;

nid yw "penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gorchymyn" yn cynnwys penderfyniad a drosglwyddwyd;

Mae "Arolygydd" yn golygu—

- (a) unigolyn a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud penderfyniad a drosglwyddwyd, neu
- (b) unigolyn sy'n cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn iddo wneud penderfyniad ar p'un ai i gadarnhau'r gorchymyn dan sylw ai pheidio;

Mae "Gorchymyn", ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn gofyn fel arall, yn golygu gorchymyn (ar wahân i orchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol) y mae darpariaethau Atodlen 6 Deddf 1980, Atodlen 15 Deddf 1981 neu Atodlen 14 Deddf 1990 yn berthnasol iddo;

mae gan "unigolyn perthnasol" yr un ystyr ag a roddir yng ngweithdrefn 3.4(f);

mae gan "ddyddiad dechrau" yr un ystyr ag a roddir yng ngweithdrefn 3.3(a);

mae "datganiad achos" yn golygu datganiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion llawn yr achos y mae unigolyn yn bwriadu ei gyflwyno ac yn cynnwys—

- (a) copïau o unrhyw ddogfennau ategol y mae'r unigolyn hwnnw'n bwriadu cyfeirio atynt neu eu rhoi fel tystiolaeth, a
- (b) rhestr o'r dogfennau hynny;

mae "penderfyniad a drosglwyddwyd" yn golygu unigolyn a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 2A Atodlen 6 Deddf 1980, paragraff 10 Atodlen 15 Deddf 1981 neu baragraff 4 Atodlen 14 Deddf 1990.

2. Rhoi'r weithdrefn hon ar waith

- 2.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol mewn perthynas â gorchymynion a wnaed gan awdurdodau lleol o dan Atodlen 6 Deddf Priffyrdd 1980, Atodlen 15 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1981 ac Atodlen 14 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd wedi'u cyflwyno i Weinidogion Cymru am benderfyniad, a lle bo'r awdurdod, unigolion perthnasol, ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a Gweinidogion Cymru yn cytuno y dylid penderfynu ar y gorchymyn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau ar ddatganiadau achos.
- 2.2 Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol mwyach os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i'r awdurdod, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol eu bod yn bwriadu eu dirwyn i ben ac yn trefnu i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei gynnal.

3. Rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol ei roi

- 3.1 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi rhybudd sy'n cydymffurfio â gweithdrefn 3.3 i'r unigolion a sonnir amdanynt yng ngweithdrefn 3.4.
- 3.2 Caiff y rhybudd ei roi cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl rhoi rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol am gadarnhad yn unol â—

- (a) rheoliad 4 Rheoliadau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus 1993;
- (b) rheoliad 7, ac Atodlen 4, Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Mapiau Diffiniol a Datganiadau) 1993; neu
- (c) rheoliad 4 Gorchmynion Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) 1993;

3.3 Yn amodol ar weithdrefn 3.5, bydd yr hysbysiad o dan weithdrefn 3.1 —

- (a) yn cael ei ddyddio, a bydd y dyddiad hwnnw'n "ddyddiad dechrau" at ddibenion y weithdrefn hon;
- (b) yn datgan y caiff y gorchymyn ei ystyried ar ffurf cyfnewid datganiadau achos a sylwadau ar ddatganiadau achos;
- (c) yn rhoi disgrifiad byr o'r —
- (ch) tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef; ac
- (d) effaith y gorchymyn;
- (dd) yn datgan y cyfeiriad (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) y caiff gohebiaeth ei hanfon ato;
- (e) yn datgan yr amser a'r lleoliad lle y bydd y gorchymyn, y datganiadau achos a'r sylwadau ar ddatganiadau achos ar gael gan yr awdurdod o dan weithdrefn 14 (archwilio a chopio dogfennau);
- (f) yn esbonio gofynion gweithdrefnau 4 a 5 (cyfnewid datganiadau achos a sylwadau ar ddatganiad achos).

3.4 Caiff y rhybudd o dan weithdrefn 3.1 ei roi i—

- (a) yr awdurdod;
- (b) pob unigolyn (a gyfeirir ato yn y weithdrefn hon fel "yr ymgeisydd") a wnaeth gais am orchymyn o dan—
 - (i) adrannau 118ZA neu 119ZA o Ddeddf 1980 (cais am Orchymyn Diddymu Llwybrau cyhoeddus neu Orchymyn Gwyo Llwybrau cyhoeddus);
 - (ii) adrannau 118C a 119C Deddf 1980 (cais gan berchennog Ysgol am Orchymyn Diddymu Arbennig neu Wyo Arbennig);
 - (iii) adran 53(5) Deddf 1981 Act (sy'n ymwneud â cheisiadau am Orchymyn Addasu Mapiau Diffiniol);
- (c) yn achos gorchymyn y mae darpariaethau Atodlen 6 Deddf 1980 (darpariaethau mewn perthynas â gwneud, cadarnhau, dilysrwydd a dyddiad gweithredu gorchmynion penodol yn ymwneud â llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) yn berthnasol, pob unigolyn lle roedd yn ofynnol iddo gael rhybudd am y gorchymyn hwnnw drwy baragraff 1(3)(b)(i), (ii) a (iv) yr Atodlen honno;
- (ch) yn achos gorchymyn y mae darpariaethau Atodlen 15 Deddf 1981 (gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion penodol o dan Ran III) yn berthnasol, pob unigolyn lle roedd yn ofynnol iddo gael rhybudd am y gorchymyn hwnnw drwy baragraff 3(2)(b)(i), (ii) a (iv) yr Atodlen honno;

- (d) yn achos gorchymyn y mae darpariaethau Atodlen 14 Deddf 1990 (gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) yn berthnasol, pob unigolyn lle roedd yn ofynnol iddo gael rhybudd am y gorchymyn hwnnw drwy baragraff 1(2)(b)(i) i (ii) a (v) yr Atodlen honno;
 - (e) pob unigolyn (a gyfeirir ato yn y weithdrefn hon fel "unigolyn berthnasol") sydd wedi rhoi unrhyw sylw neu wrthwynebiad yn briodol a heb ei dynnu'n ôl fel y sonnir ym mharagraff 2(2) Atodlen 6 Deddf 1980 (darpariaethau mewn perthynas â gwneud, cadarnhau, dilysrwydd a dyddiad cilffyrdd cyfyngedig), paragraff 7(1) Atodlen 15 Deddf 1981 (gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion penodol o dan Ran III), neu baragraff 3(1) Atodlen 14 Deddf 1990 (gweithdrefn ar gyfer gorchmynion llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig), fel y gallai fod yn berthnasol.
- 3.5 Nid yw gweithdrefnau 3.4(c),(ch) ac (d) (fel y gallai fod yn berthnasol) yn berthnasol yn achos gorchymyn lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo.
- 3.6 Mae gweithdrefn 3.5 yn berthnasol i-
- (a) gyfarwyddyd o dan baragraff 1(3C) Atodlen 6 Deddf 1980 (darpariaethau mewn perthynas â gwneud, cadarnhau, dilysrwydd a dyddiad gweithredu gorchmynion penodol sy'n ymwneud â llwybrau troed, llwybr ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) na fydd angen cydymffurfio â pharagraff 1(3)(b)(i) yr Atodlen honno;
 - (b) cyfarwyddyd o dan baragraff 3(4) Atodlen 15 Deddf 1981 (gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion penodol o dan Ran III) na fydd angen cydymffurfio â pharagraff 3(2)(b)(i) yr Atodlen; a
 - (c) chyfarwyddyd o dan baragraff 1(6) Atodlen 14 Deddf 1990 (gweithdrefn ar gyfer gorchmynion llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) na fydd angen cydymffurfio â pharagraff 1(2)(b)(i) yr Atodlen honno.
- 3.7 Lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd a gyfeirir ato yng ngweithdrefn 3.6, bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod yn cydymffurfio â gweithdrefn 3.3 wedi'i chyfeirio at "berchenogion ac unrhyw feddiannwyr" ar y tir dan sylw, drwy atodi copi neu gopiau o'r hysbysiad i rai gwrthrych neu wrthrychau amlwg ar y tir.
- 3.8 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau bod copi o'r hysbysiad a roddwyd ganddo o dan weithdrefn 3.1 ar gael i'w archwilio ar wefan a gynhelir ganddo hyd nes y rhoddir gwybod am y penderfyniad o dan weithdrefn 9 neu 10 (fel y gallai fod yn berthnasol).

4. Cyflwyno datganiadau achos

- 4.1 Bydd yr awdurdod yn sicrhau, o fewn pythefnos ar ôl y dyddiad dechrau, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn ei ddatganiad achos, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gynted ag sy'n ymarferol, anfon copi o'r

datganiad hwnnw at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol.

- 4.2 Bydd yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) yn sicrhau, o fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau, bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn ei ddatganiad achos, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn anfon copi o'r datganiad hwnnw i'r awdurdod ac at bob unigolyn perthnasol.
- 4.3 Bydd pob unigolyn perthnasol a phob unigolyn arall sydd am roi tystiolaeth yn sicrhau, o fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau, bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn ei ddatganiad achos a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn anfon copi o'r datganiad hwnnw i'r awdurdod, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol arall.

5. Rhoi sylwadau ar ddatganiadau achos

- 5.1 Bydd yr awdurdod, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol yn sicrhau, o fewn pythefnos i'r dyddiad dechrau, bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn eu sylwadau ar unrhyw ddatganiad achos neu bob datganiad achos arall.
- 5.2 Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl eu derbyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon copi o'r sylwadau hyn i'r awdurdod, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol.

6. Darparu rhagor o wybodaeth

- 6.1 Gallai fod ar yr Ysgrifennydd Gwladol angen gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn gan unrhyw un mewn perthynas â'i ddatganiad achos fel y sonnir yng ngweithdrefn 4 ac y caiff y wybodaeth honno ei darparu yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod hwn fel y gallai fod ar yr Ysgrifennydd Gwladol ei hangen yn rhesymol.
- 6.2 Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl derbyn rhagor o wybodaeth sydd ei hangen o dan weithdrefn 6.1, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygydd yn anfon copi i'r awdurdod, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unigolion perthnasol.

7. Y weithdrefn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau – penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

- 7.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle y caiff penderfyniad ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gorchymyn.
- 7.2 Ar ôl derbyn datganiadau achos a sylwadau a ddisgrifir yng ngweithdrefnau 4 a 5, ac unrhyw wybodaeth bellach a ddisgrifir yn ngweithdrefn 6, bydd yr arolygydd yn cyflwyno adroddiad yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn cynnwys ei gasgliadau a naill ai ei argymhellion neu ei resymau dros beidio â gwneud unrhyw argymhellion.

- 7.3 Wrth wneud ei benderfyniad, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiystyru unrhyw sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu ddogfen arall sy'n dod i law ar ôl 14 wythnos o'r dyddiad dechrau.
- 7.4 Mae gweithdrefn 7.5 yn berthnasol lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol—
- (a) yn wahanol i'r arolygydd o ran unrhyw ffaith y sonnir amdani mewn casgliad, neu sy'n arwyddocaol yn ei dyb ef, i gasgliad y mae'r arolygydd yn ei wneud, ac am y rheswm hwnnw, mae'n dueddol o anghytuno ag argymhelliad a wnaed gan yr Arolygydd, neu
 - (b) yn ystyried unrhyw ddeunydd sylweddol sy'n berthnasol i'r penderfyniad, yn ei dyb ef.
- 7.5 Lle bo'r weithdrefn hon yn berthnasol, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad heb roi gwybod yn gyntaf i'r awdurdod, yr ymgeisydd ac unigolion perthnasol ac unrhyw un arall a gyflwynodd ddatganiad achos neu a roddodd sylwadau ar ddatganiad achos –
- (i) ei fod yn dueddol o anghytuno ag argymhelliad a wnaed gan yr Arolygydd, a'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw, neu
 - (ii) neu o ran y deunydd dilynol sy'n berthnasol i'r penderfyniad, yn ei dyb ef; a

chan roi'r cyfle iddo roi sylwadau ysgrifenedig neu i ofyn am gael ei glywed.

- 7.6 Bydd yr unigolion hynny sy'n rhoi sylwadau ysgrifenedig neu sy'n gofyn am gael eu clywed o dan weithdrefn 7.5 yn sicrhau bod sylwadau neu geisiadau o'r fath yn cael eu derbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn tair wythnos i hysbysiad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y weithdrefn honno.
- 7.7 Os bydd yn tybio ei fod yn briodol gwneud hynny, gall yr Ysgrifennydd Gwladol achosi i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei agor a bydd yn gofyn hynny os gofynnir yn yr amgylchiadau y sonnir amdanynt yng ngweithdrefn 7.5 ac o fewn y cyfnod y sonnir amdano yng ngweithdrefn 7.6 [a lle y caiff gwrandawriad neu ymchwiliad ei agor, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon datganiad ysgrifenedig at bob unigolyn sydd â hawl i ymddangos o'r materion mewn perthynas â pha dystiolaeth neu ddadl bellach sydd wedi'u gwahodd].

8. Gweithdrefn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau— penderfyniadau a drosglwyddwyd

- 8.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle bo penderfyniad wedi'i drosglwyddo i arolygydd.
- 8.2 Wrth wneud ei benderfyniad, gall yr arolygydd ddiystyru unrhyw sylw ysgrifenedig, tystiolaeth neu ddogfen arall sy'n dod i law ar ôl 14 wythnos i'r dyddiad dechrau.

- 8.3 Os bydd yr arolygydd yn bwriadu ystyried unrhyw dystiolaeth neu ffaith newydd na dderbyniwyd o fewn 14 wythnos i'r dyddiad dechrau ac sy'n fater sylweddol o ran y penderfyniad, yn nhyb yr Arolygydd, ni fydd yn gwneud penderfyniad heb wneud y canlynol yn gyntaf-
- (a) roi gwybod am unrhyw ddeunydd dilynol sy'n berthnasol yn ei dyb ef i benderfyniad yr awdurdod, yr ymgeisydd ac sy'n berthnasol i bob unigolyn perthnasol ac unrhyw un arall a gyflwynodd ddatganiad achos neu a roddodd sylwadau ar ddatganiad achos;
 - (b) rhoi cyfle i unigolion o'r fath roi sylwadau ysgrifenedig iddynt neu i ofyn am gael eu clywed.
- 8.4 Bydd yr unigolion hynny sy'n rhoi sylwadau ysgrifenedig neu sy'n gofyn am gael eu clywed o dan weithdrefn 8.3 yn sicrhau y bydd sylwadau neu geisiadau o'r fath yn cael eu derbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn tair wythnos i ddyddiad yr hysbysiad yng ngweithdrefn 8.3.
- 8.5 Gall yr arolygydd, os bydd yn tybio bod hynny'n briodol, achosi i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei agor a bydd yn gwneud hynny os gofynnir am hynny yn yr amgylchiadau ac o fewn y cyfnod a sonnir amdano yng ngweithdrefn 8.4 [a lle y caiff gwrandawriad neu ymchwiliad ei agor, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon datganiad ysgrifenedig o'r materion mewn perthynas â'r sail dros gyflwyno tystiolaeth neu ddadlau pellach .]

9. Rhoi gwybod am benderfyniad – penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

- 9.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle y caiff penderfyniad ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gorchymyn.
- 9.2 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn rhoi gwybod am ei benderfyniad a'i resymau dros ei wneud, i –
- (a) yr awdurdod;
 - (b) yr ymgeisydd;
 - (c) pob unigolyn perthnasol;
 - (ch) pob unigolyn a gyflwynodd ddatganiad achos;
 - (d) pob unigolyn a gyflwynodd sylwadau;
 - (dd) pob unigolyn arall a gafodd wybod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â gweithdrefn 3.4(b) at (dd).
- 9.3 Lle na chaiff copi o adroddiad yr arolygydd ei anfon gyda rhybudd am y penderfyniad a roddir o dan weithdrefn 9.2, bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys datganiad o'i gasgliadau ac unrhyw argymhellion a wnaed ganddo; ac os nad yw unigolyn sydd â hawl i gael gwybod am y penderfyniad wedi cael copi o'r adroddiad hwnnw, bydd yn cael copi ohono wrth wneud y cais ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol.

- 9.4 Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl rhoi gwybod am y penderfyniad o dan weithdrefn 9.2, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau bod copi o'r hysbysiad hwnnw ar gael i'w archwilio am gyfnod o dri mis ar wefan a gynhelir ganddo.
- 9.5 Yn y weithdrefn hon, nid yw "adroddiad" yn cynnwys unrhyw ddogfennau sydd wedi'u hatodi i adroddiad yr arolygydd; ond gall unrhyw un sydd wedi cael copi o'r adroddiad wneud cais yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cael cyfle i archwilio unrhyw ddogfennau o'r fath a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi'r cyfle hwnnw iddo.

10. Rhoi gwybod am benderfyniad—penderfyniadau a drosglwyddwyd

- 10.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle bo penderfyniad wedi'i drosglwyddo i arolygydd.
- 10.2 Bydd yr arolygydd, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn rhoi gwybod am ei benderfyniad a'i resymau drosto, i—
- (a) yr awdurdod
 - (b) pob un sydd wedi cyflwyno datganiad achos;
 - (c) pob un a gyflwynodd sylwadau; a
 - (ch) phawb arall a gafodd wybod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â gweithdrefn 3.4 (b) at (dd).
- 10.3 Gall unrhyw un sydd â hawl i gael gwybod am benderfyniad yr arolygydd o dan weithdrefn 10.2 wneud cais yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol am gyfle i archwilio unrhyw ddogfennau a gyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwnnw a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi'r cyfle hwnnw iddo.
- 10.4 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl rhoi gwybod o dan weithdrefn 10.2, bod copi o'r hysbysiad hwnnw ar gael i'w archwilio am gyfnod o dri mis ar wefan a gynhelir ganddo.

11. Archwiliadau Safle

- 11.1 Gall yr arolygydd ymweld â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef ar ei ben ei hun wrth i ddatganiadau achos a sylwadau gael eu rhoi neu ar ôl eu cwblhau heb roi gwybod am ei benderfyniad i wneud hyn.
- 11.2 Gall yr arolygydd—
- (a) archwilio'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yng nghwmni'r awdurdod ac unrhyw un sydd â hawl i gyflwyno datganiad achos neu sylwadau neu sydd wedi cael caniatâd i wneud hynny;
 - (b) cynnal ymweliad o'r fath os gofynnir i'r awdurdod, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) neu unigolyn perthnasol wneud hynny.

- 11.3 Ym mhob achos, lle bo'r arolygydd yn bwriadu cynnal ymweliad safle yng nghwmni eraill o dan weithdrefn 11.2, heb roi llai na phyfethnos o rybudd, bydd yn cyhoeddi'r dyddiad a'r amser y mae'n bwriadu ei gynnal.
- 11.4 Ni fydd yr arolygydd wedi'i rwymo i oedi ymweliad os nad oes unrhyw un sydd â hawl i fod yn bresennol neu sydd â chaniatâd i wneud hynny'n bresennol ar yr amser penodedig.

12. Addasu Gorchymynion

- 12.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi gwybod am ei fwriad i addasu gorchymyn o dan baragraff 2(3)(a) Atodlen 6 Deddf 1980, paragraff 8(2)(a) Atodlen 15 Deddf 1981 neu baragraff 3(6)(a) Atodlen 14 Deddf 1990.
- 12.2 Yn unol â'r hysbysiad y cyfeirir ato yng ngweithdrefn 12.1, lle bo unrhyw un wedi rhoi unrhyw sylw neu wrthwynebiad yn briodol a hynny, heb ei dynnu'n ôl, a lle bo'r awdurdod, unigolion perthnasol, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu y dylid penderfynu ar y gorchymyn ar ôl cyfnewid datganiadau achos a sylwadau ar ddatganiadau achos, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn amodol ar weithdrefn 3.5, yn rhoi gwybod i'r unigolion y cyfeirir atynt yng ngweithdrefn 3.4.
- 12.3 Bydd gweithdrefn 3.3 (gofynion yr hysbysiad) yn berthnasol i hysbysiad a roddir o dan weithdrefn 12.1 uchod fel sy'n berthnasol i hysbysiad a roddir o dan weithdrefn 3.1 ac eithrio y bydd yr hysbysiad a roddir o dan weithdrefn 12.2 hefyd yn disgrifio effaith cynnig yr Ysgrifennydd Gwladol i addasu'r gorchymyn.
- 12.4 Bydd gweithdrefnau 3.8, 4 at 11 ac 13 at 16 yn berthnasol i ddatganiadau achos a sylwadau ar ddatganiadau achos a ddelir o dan weithdrefn 12.1 uchod, ac eithrio wrth roi gweithdrefn 4.1 ar waith, o ran y cyfeiriad at "bythefnos i'r dyddiad dechrau", caiff "o fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau" ei roi yn ei le.

13 Rhagor o amser

- 13.1 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar unrhyw adeg mewn unrhyw achos penodol, ganiatáu rhagor o amser ar gyfer cymryd unrhyw gam neu i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol neu sydd wedi'i alluogi i'w wneud neu ei wneud yn rhinwedd y gweithdrefnau hyn; a chaiff unrhyw gyfeiriadau yn y gweithdrefnau hyn at gyfnod lle bo unrhyw gam neu unrhyw beth yn ofynnol neu sydd wedi'i ganiatáu ei ddechongli yn unol â hynny.

14 Archwilio a chopïau o ddogfennau

- 14.1 Bydd yr awdurdod yn rhoi'r cyfle i unrhyw un sy'n gofyn am gael gwneud hynny, archwilio a derbyn copïau—
- (a) o'r gorchymyn fel y'i cyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol am gadarnhad;
 - (b) o unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed yn briodol ac na chawsant eu tynnu'n ôl mewn perthynas â'r gorchymyn;

- (c) o'r rhybudd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â gweithdrefn 3.1 a 12.2;
- (ch) unrhyw ddatganiad achos neu sylwadau fel y soniwyd amdanynt yng ngweithdrefnau 4 a 5;
- (d) unrhyw wybodaeth bellach fel y soniwyd amdani yng ngweithdrefn 6;
- (dd) unrhyw sylwadau sydd wedi'u rhoi o ganlyniad i weithdrefn 7 ac 8; ac
- (e) unrhyw ddogfen arall sydd ym meddiant yr awdurdod ac sy'n ymwneud â phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol neu adroddiad yr arolygydd mewn perthynas â'r gorchymyn.

15 Hysbysiadau

- 15.1 Yn amodol ar weithdrefn 16, bydd unrhyw hysbysiad a wneir o dan y gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig.

16 Defnyddio cyfathrebu electronig

- 16.1 Gellir bodloni unrhyw ofyniad a osodwyd o dan y gweithdrefnau hyn o ran rhoi neu anfon hysbysiad arall neu ddogfennaeth arall gan un unigolyn ar ffurf cyfathrebu electronig os—
- (a) bydd defnyddio cyfathrebu o'r fath yn golygu bod y wybodaeth sydd ar gael yn yr hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen honno ar gael i'r unigolyn arall ym mhob ystyr sylweddol fel y byddai'n ymddangos mewn hysbysiad neu ddogfen a roddir neu a anfonir ar ffurf argraffedig; a
 - (b) yw'r unigolyn arall wedi rhoi ei ganiatâd bod y wybodaeth ar gael iddo drwy'r dull hwnnw.
- 16.2 Lle, o dan weithdrefn 16.1, y caiff cyfathrebu electronig ei ddefnyddio at ddibenion rhoi dogfen neu ei hanfon, caiff unrhyw ofyniad i'r hysbysiad neu'r ddogfen gael eu rhoi neu eu hanfon erbyn amser penodol ei fodloni mewn perthynas â chyfathrebu electronig dim ond os yw'r amodau y sonnir amdanynt yng ngweithdrefn 16.1 yn cael ei fodloni erbyn hynny.
- 16.3 At ddibenion gweithdrefn 16.1(a), mae "ym mhob ystyr sylweddol" y golygu ym mhob ystyr sy'n sylweddol i atgynhyrchu'r wybodaeth yn fanwl-gywir y byddai'r hysbysiad neu'r ddogfen yn ei chynnwys pe baent yn cael eu rhoi neu eu hanfon ar ffurf argraffedig.

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Hydref 2011

C Cyhoeddiadau Perthnasol

Deddfau Seneddol, Offerynnau Statudol, Cylchlythyrau

Gallwch gael y rhain gan y Llyfrfa (gallwch gysylltu â nhw dros y ffôn ar 0870-600-5522 neu ar eu gwefan www.tso.co.uk), hefyd Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar eu gwefan www.opsi.gov.uk) neu gallwch edrych ar gopiâu yn eich llyfrgell leol.

Deddf Prifffyrdd1980

Rheoliadau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus 1993 (Offeryn Statudol 1993 Rhif 11)

Rheoliadau Gorchmynion Diddymu a Gwyo Croesfannau Rheilffordd 1993

Gorchmynion Diddymu a Gwyo Croesfannau Rheilffordd, Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a Rheoliadau Mapiau a Datganiadau Diffiniol (Diwygio) (Offeryn Statudol 1995, Rhif 451) 1995

Rheoliadau (Ysgolion) (Gorchmynion Diddymu Arbennig a Gwyo Arbennig) (Cymru) 2005 (OS 2005, Rhif 1809)

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) (Offeryn Statudol 1993, Rhif 10) 1993

Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981

Rheoliadau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) (Offeryn Statudol 1993, Rhif 12) 1993

Cylchlythyrau

Cylchlythyr Swyddfa'r Gymreig 5/93, Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cylchlythyr Swyddfa'r Gymreig 23/93, Dyfarnu Costau yr aed iddynt mewn Materion Cynllunio a Materion Eraill (Yn cynnwys Gorchmynion Prynu Gorfodol)

Cylchlythyr ar gyfer Rheolau Gweithdrefn ar gyfer Gorchmynion Hawliau Tramwy dyddiedig Gorffennaf 2007 (*Lluniwyd y Cylchlythyr hwn gan DEFRA ac fe'i defnyddir ar y cyd ag ysbryd y Rheolau*)

Cyhoeddiadau Eraill

Mae Canllawiau Cysondeb ar gael ar ein gwefan yn:

www.planningportal.gov.uk/countryside/

Mae Nodiadau Cyngor ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/countryside/rightsofway/advicenotes>

Mae Nodyn Cyfleusterau ar gyfer Ymchwiliadau a Gwrandawiadau Cyhoeddus ar gael ar ein gwefan:

http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue_and_facilities_for_public_inquiries_and_hearings_engwel.pdf

Ch – Amserlen a chamau gweithredu i’w cymryd mewn Gweithdrefnau Sylwadau Ysgrifenedig, Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau

Sylwadau Ysgrifenedig

Amserlen	Camau gweithredu i’w cymryd
Dyddiad Dechrau	Rydym yn anfon llythyr dyddiad dechrau at bob parti perthnasol sy’n cadarnhau’r weithdrefn gytûn ac yn amlinellu’r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth.
O fewn pythefnos i’r dyddiad dechrau	<p>Mae’r awdurdod lleol yn cyflwyno ei ddatganiad achos, gan gynnwys copi o’r dogfennau cysylltiedig a rhestr o’r dogfennau hynny.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo’r datganiad, gyda’r rhestr o ddogfennau, at yr ymgeisydd (os yw’n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol.</p>
O fewn wyth wythnos i’r dyddiad dechrau	<p>Mae’r ymgeisydd (os yw’n berthnasol) a phob unigolyn perthnasol yn cyflwyno eu datganiadau achos, gan gynnwys rhestr o’r dogfennau hynny ar restr yr awdurdod lleol a chopi o unrhyw ddogfen arall sy’n rhan o’u tystiolaeth.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo’r datganiadau i’r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw’n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd wedi cyflwyno datganiad.</p>
O fewn 14 wythnos i’r dyddiad dechrau	<p>Mae’r awdurdod lleol, yr ymgeisydd (os yw’n berthnasol) a phob unigolyn arall yn cyflwyno unrhyw sylwadau ar unrhyw ddatganiad achos neu bob un ohonynt.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo’r sylwadau hyn i’r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw’n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd wedi cyflwyno sylwadau.</p>
O fewn 18 wythnos i’r dyddiad dechrau	Caiff yr ymweliad safle ei gynnal.

Gwrandawiadau

Amserlen	Camau gweithredu i'w cymryd
Dyddiad Dechrau	Rydym yn anfon llythyr dyddiad dechrau at bob parti perthnasol sy'n cadarnhau'r weithdrefn gytûn ac yn amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth.
O fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau	<p>Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno ei ddatganiad achos, gan gynnwys copi o'r dogfennau cysylltiedig a rhestr o'r dogfennau hynny.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo'r datganiad a'r rhestr o ddogfennau at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd am ymddangos yn y gwrandawriad.</p>
O fewn 12 wythnos i'r dyddiad dechrau	<p>Mae'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a phob unigolyn perthnasol yn cyflwyno eu datganiadau achos, gan gynnwys rhestr o'r dogfennau hynny ar restr yr awdurdod lleol a chopi o unrhyw ddogfen arall sy'n rhan o'u tystiolaeth.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo'r datganiadau a'r dogfennau i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd wedi cyflwyno datganiad.</p>
4 wythnos cyn y gwrandawriad	Mae'r awdurdod lleol yn hysbysebu'r gwrandawriad mewn papur lleol, ar ddau ben y ffordd ac mewn man lle y caiff hysbysiadau eu gosod yn yr ardal leol fel arfer.
O fewn 20 wythnos i'r dyddiad dechrau	Caiff y Gwrandawriad ei gynnal.

Ymchwiliadau

Amserlen	Camau gweithredu
Dyddiad Dechrau	Rydym yn anfon llythyr dyddiad dechrau at bob parti perthnasol sy'n cadarnhau'r weithdrefn gytûn ac yn amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth.
O fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau	<p>Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno ei ddatganiad achos, gan gynnwys copi o'r holl ddogfennau cysylltiedig a rhestr o'r dogfennau hynny.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo'r datganiad a'r rhestr o ddogfennau at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd am ymddangos yn yr ymchwiliad.</p>
O fewn 14 wythnos i'r dyddiad dechrau	<p>Mae'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a phob unigolyn perthnasol sydd am ymddangos yn yr ymchwiliad yn cyflwyno eu datganiadau achos, gan gynnwys rhestr o'r dogfennau hynny ar restr yr awdurdod lleol a chopi o unrhyw ddogfen arall sy'n rhan o'u tystiolaeth.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo'r datganiadau a'r dogfennau i'r awdurdod lleol, at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac at bob unigolyn perthnasol sydd wedi cyflwyno datganiad.</p>
4 wythnos cyn yr ymchwiliad	<p>Mae'r awdurdod lleol a phob unigolyn perthnasol yn cyflwyno eu prawf tystiolaeth ac unrhyw grynodedb.</p> <p>Cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser, rydym yn copïo prawf yr awdurdod lleol ac unrhyw grynodedb at yr unigolion perthnasol a'u prawf ac unrhyw grynodedbau i'r awdurdod lleol.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn hysbysebu'r papur lleol, ar ddau ben y ffordd ac mewn man lle y caiff hysbysiadau eu gosod yn yr ardal leol fel arfer.</p>
O fewn 26 wythnos i'r dyddiad dechrau	Bydd yr ymchwiliad yn dechrau.

* Yn achos sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau neu ymchwiliadau a gynhelir yn sgil addasiadau arfaethedig, ac oni fyddwn yn penderfynu fel arall, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, yr ymgeisydd, unigolion perthnasol ac unrhyw un arall sicrhau ein bod yn derbyn eu datganiadau achos **heb fod yn hwyrach nag 8 wythnos ar ôl dyddiad ein hysbysiad**. Mae hyn hefyd yn berthnasol i wrandawiadau neu ymchwiliadau sydd wedi'u hailagor. Gweler Adran 7.

D – Paratoi Datganiadau Achos a Phrawf Tystiolaeth

Datganiadau Achos

1. Dylai datganiadau achos gynnwys manylion llawn yr achos y mae'r awdurdod lleol, y rhai sy'n rhoi'r sylwadau neu'r gwrthwynebiadau'n, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unrhyw un arall yn bwriadu eu cyflwyno mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, neu ar ffurf sylwadau ysgrifenedig. Dylent gynnwys cyfeirnod yr Arolygiaeth ar gyfer y gorchymyn. Dylai datganiadau gynnwys copïau o dystiolaeth ddogfennol a rhestr o'r dogfennau hyn.
2. Gall datganiadau ddyfynnu'r gyfraith achosion y mae parti'n bwriadu galw arni i gefnogi ei ddadleuon hefyd. Os caiff cyfraith achosion ei dyfynnu, dylid rhoi cyfeirnod yr adroddiad llawn. Dylid cynnwys copi o adroddiad yr achos fel atodiad.
3. Dylai datganiad yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn gael ei amlinellu fel ei fod yn cynnwys rhagarweiniad, gwybodaeth gefndir (lle bo angen), manylion am yr hawliad neu'r cais, y profion cyfreithiol i'w rhoi ar waith, y dystiolaeth ddogfennol, tystiolaeth defnyddwyr, sylwadau ar wrthwynebiadau neu sylwadau gan gynnwys crynodeb. Nid yw'r rhestr yn holl gynhwysfawr a dim ond fel canllaw y dylid ei defnyddio.
4. Dylid rhoi adroddiadau achos a deunydd ategol arall mewn atodiadau i'r dystiolaeth gydag un gyfrol ar gyfer tystiolaeth pob tyst. (Ac eithrio lle bo parti'n dibynnu ar dystiolaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn natganiad achos yr awdurdod. Yn yr achos hwn, dylai'r atodiad gyfeirio at y ddogfen a lle bo modd ei chanfod mewn atodiadau i ddatganiad yr awdurdod lleol.) Dylid rhwymo atodiadau mewn cyfrol ar wahân (neu gyfrolau), gydag wynebdden a rhestr gynnwys ar gyfer pob cyfrol. Dylid rhifo pob tudalen o bob cyfrol. Dylid gwahanu pob atodiad gydag ymrannwr tabiau mynegai a'u rhifo neu eu nodi fesul un o fewn cyfrol yr atodiadau.
5. Dylai datganiadau ac atodiadau fod o faint A4, a chael eu rhwymo a'u gosod mewn ffeil fodrwy fel bod modd eu gosod yn wastad o'u hagog. Er mwyn caniatáu gwneud nodiadau arnynt, dylai datganiadau gael eu teipio ar un ochr o'r papur yn unig. Lle bo atodiadau'n cynnwys dogfennau mwy o faint megis cynlluniau, dylid plygu'r rhain i faint A4. (Gallai waled blastig dryloyw i'w dal fod yn ddefnyddiol.) Dylid mowntio ffotograffau ar gardbord A4, a dylid eu hategu â chynllun yn dangos y safbwyntiau o'r man y cawsant eu tynnu. Dylid rhoi manylion perthnasol eraill, megis eu hamser a'u dyddiad.
6. Mewn perthynas â chyflwyno dogfennau fel tystiolaeth, mae Adran 46 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1998 yn datgan '(1) *Nad yw hawlfraint yn cael ei thorri gan unrhyw beth a wneir at ddibenion trafodion y Comisiwn Brenhinol neu ymchwiliad statudol..*'. Yn ein barn ni, mae hyn yn berthnasol i ymchwiliadau hawliau tramwy a gellid dadlau ei fod yn berthnasol i achosion yr ymdrinnir â nhw trwy wrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig.

7. Fodd bynnag, gallai fod angen caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint i ddefnyddio deunydd hawlfraint y tu allan i'n swyddogaethau statudol. Dylech gofio os byddwch yn **copïo deunydd i'w anfon atom ni**, bod yn rhaid gwneud hyn **gyda chaniatâd y perchennog yn unig**, yn ogystal â thalu unrhyw ffi drwydded. Ni cheir copïo ymhellach unrhyw ddogfennau o unrhyw achos hawliau tramwy blaenorol heb ganiatâd deiliaid yr hawlfraint (megis mapiau Arolwg Ordnans, erthyglau gan yr Adolygiad o'r Gyfraith Hawliau Tramwy neu gopïau o ddyfarniadau y mae'r adysgrifwyr yn berchen arnynt ac ati).

Prawf Tystiolaeth

8. Y ddogfen sy'n cynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig y bydd unigolyn sy'n ymddangos mewn ymchwiliad cyhoeddus yn siarad amdani yw prawf tystiolaeth. Nid oes unrhyw ddogfen gyfatebol ar gyfer gwrandawriadau neu sylwadau ysgrifenedig.
9. Dylai prawf tystiolaeth fod yn gryno gan ganolbwyntio ar bwyntiau y ceir dadlau yn eu cylch (y bydd y rhai sy'n ymddangos yn yr ymchwiliad wedi tynnu sylw atynt o ganlyniad i archwilio'r datganiadau achos eraill). Ni ddylent ailadrodd yr holl faterion nad oes dadl yn eu cylch, ac ni ddylent gyfeirio at ddeunydd newydd na soniwyd amdano yn y datganiad achos ychwaith. Lle mae'n bwysig cynnwys ffeithiau'n fanwl, dylai'r prawf ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i ddatgan yr achos. Lle bo'r prawf yn gwneud pwynt sy'n dibynnu ar ddogfen a gynhwyswyd mewn datganiad achos, dylid rhoi rhif y dudalen a'r paragraff yn y ddogfen honno.
10. Dylid rhifo tudalennau a pharagraffau'r prawf. Ni ddylai'r prawf fod yn hwy na 3000 gair a dylid darparu crynodeb pan fo prawf yn fwy na 1500 gair. Dylai unrhyw grynodeb fod yn gymesur â hyd y prawf ond ni ddylai fod yn fwy na 1500 gair. Dylai crynodebau grynhoi sylwedd y prawf tystiolaeth yn fanwl-gywir, yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau dan sylw. Lle bo parti wedi rhoi crynodeb, dim ond y crynodeb sy'n cael ei ddarllen yn yr ymchwiliad fel arfer. Dylid darparu'r crynodeb ar yr un pryd ag y caiff y prif prawf tystiolaeth ei gyflwyno.

Archwilio Datganiadau Achos a Phrawf Tystiolaeth

11. Rydym yn copïo datganiad achos yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn, heb yr holl ddogfennau ategol ond yn cynnwys y rhestr o ddogfennau a roddwyd fel tystiolaeth gan yr awdurdod lleol, at yr holl bartïon sy'n gysylltiedig â gwrandawriad neu ymchwiliad. (Nid ydym yn copïo atodiadau tystiolaeth yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn – gellir archwilio'r rhain yn swyddfeydd yr Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn.) Mae'r Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn yn sicrhau bod copïau o'u holl dystiolaeth, gan gynnwys atodiadau'n cynnwys tystiolaeth ddogfennol, ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Rydym yn copïo datganiadau achos a datganiadau y partiïon eraill a roddwyd fel tystiolaeth i'r Awdurdod sy'n Gwneud y Gorchymyn, a fydd hefyd yn sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Rydym yn hefyd yn copïo datganiadau achos unigolion perthnasol at yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) a datganiadau achos yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) at unigolion perthnasol. Rydym yn copïo pob prawf tystiolaeth at bawb

sydd â hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad, ac mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio.

**Dd – Cylchlythyr ar gyfer rheolau gweithdrefn ar gyfer
Gorchmynion Hawliau Tramwy Gorffennaf 2007**

Dolen i'r wefan ar gyfer y Cylchlythyr hwn:

<http://archive.defra.gov.uk/rural/documents/countryside/prow/hipr-circ2007.pdf>

E – Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:

www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd ar gael ar gais neu ar ein gwefan:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/planninginspectorate>

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi neu'ch bod am ofyn am eich data personol, cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad isod:

Cysylltu â ni

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

